


ECO'R WYDDFA

RHIF 283

TACHWEDD 2001

PRIS 40c

COFIO'R 'HOGYN O LANBABS'



William Gwenlyn Parry, 1932-1991

Bu farw Gwenlyn Parry ar y pumed o Dachwedd, 1991. Dyma ddramodydd pwysicaf Cymru tua diwedd yr ugeinfed ganrif a bu ei gyfraniad i fyd y theatr yng Nghymru yn enfawr. O berfformiad ei ddrama gyntaf, *Saer Doliau* ym 1966 i berfformiadau pellach o *Y Tŵr*, *Y Ffin*, *Tŷ ar y Tywod* a *Panto* bu'n gyfrwng i foderneiddio'r Theatr Gymraeg a chafodd ar sawl achlysur ei gymharu â dramodwyr abs wrd fel Beckett a Pinter. Roedd yn ddyn teledu hefyd, yn gyd-awdur y gyfres gomedi deledu *Fo a Fe* gyda'i gyfaill pennaf Rhydderch Jones, a hefyd yn un a gydysgrifennodd y ffilm lwyddiannus *Grand Slam* a rhoi'r anadl gyntaf i'r gyfres sebon *Pobol y Cwm* gyda'i gyfaill yn y BBC, John Hefin.

I nodi dengmlwyddiant ei farw, mae S4C yn rhoi llwyfan dyladwy i'r dramodydd amryddawn hwn drwy ddarlledu cyfres o raglenni yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd. Bydd y deyrnged hon yn cynnwys dwy raglen ddogfen, *Gwenlyn a Cofio Gwenlyn*, addasiad newydd sbon BBC Cymru o *Y Tŵr* gyda Huw Garmon a Betsan Llwyd, ail-gyfle i weld pennod o *Fo a Fe*, ac ailddarllediadau ar S4C Digidol o addasiadau teledu cynnar BBC Cymru o rai o'i ddramâu enwocaf.

Darlledwyd y rhaglen *Gwenlyn* am y tro cyntaf fis

Mawrth 1988 ac y mae'n rhoi darlun i ni o'i fywyd a'i waith o'r crud hyd at ei farwolaeth gynamserol ddeng mlynedd yn ôl, gan mai cyfweiliad hanner awr gyda Gwenlyn ei hun sydd yma.

Mae'n ei ddangos yn ôl ym mro ei febyd yn Neiniolen yn crwydro ar hyd Chwarel Dinorwig ac yn ymweld â'r Amgueddfa Chwarel yn Llanberis a'r Cwt Band yn Neiniolen, ac er iddo dreulio cyfran helaeth o'i fywyd yng Nghaerdydd mae'n amlwg fod yr ardal wedi cael dylanwad mawr arno, fel y dywed ei hun: 'Dwi'n gwybod bod fy

nghefnidir i yn Neiniolen, bod y chwarel, y pethau oedd yn digwydd yn Neiniolen pan o'n i'n hogyn bach wedi cael gafael cry' arna i.'

Ac yntau'n fab i chwarelwr ac wedi ei fagu mewn cyfnod o galedi a thlodi a pheryglon oedd yn gysylltiedig â'r bywyd hwnnw, mae'r chwerw a'r melys yma hefyd i'w ganfod yn ei waith. Meddai, 'Mae'r difrifol wrth gwrs yn gallu bod yn theatrig, ond os na chewch chi'r digrifwch efo'r difrifol, dydi o da i ddim byd, a dwi'n gobeithio bod hynny yn fy ngwaith i hefyd achos gesh i beth wmbath o hwyl yn Neiniolen.'

Pheidiodd o erioed â bod yn 'un o hogia'r graig' ac roedd tafodiaith chwarelyddol yr ardal hon wastad yn canu'n glir yn ei ddeialog. Hogyn bach o Lanbabo oedd o, ac roedd y gwyleidd-dra hoffus hwnnw yn amlwg yn ei waith hyd yn oed wedi iddo hen sefydlu enw iddo'i hun. Fel y dywed y Llenor a'r Seiciatrydd Harri Pritchard Jones yn y rhaglen *Cofio Gwenlyn* (Nos Sadwrn, 3 Tachwedd am 9.00 o'r

Aur Dan y Rhedyn i Redwyr Eryri

Daeth dros bum cant o redwyr o wahanol ardaloedd o Brydain i Lanberis ar ddydd Sul, 21ain o Hydref. Dyma benllanw'r tymor rasio mynyddoedd ym Mhrydain, sef y pencampwriaethau rasmus cyfnewid. Eleni, Clwb Rhedwyr Eryri oedd yn trefnu'r gystadleuaeth, a hynny am yr eildro yn ei hanes; yr unig glwb athletau o Gymru i ymgymryd â'r cyfrifoldeb.

Yr ardal o amgylch Cwm Dwythwch oedd cyrchfan y gwahanol redwyr ar y pedwar cymal, gyda chwe aelod i bob tim - dau gymal sengl a dau gymal o barau.

Am hannerwynnodd pedwar ugain a phedwar o redwyr o Ddôl y Goeden gan ddringo'r llwybr heibio'r Cunant Mawr i gyfeiriad Cwm Dwythwch. Wedi cyrraedd y gwastadedd uwchben y pentref rhaid oedd dilyn 'ffordd yr ucheldir iach' heibio i'r Hafod Ucha ac ymlaen i'r Maenllwyd cyn dringo am Fwlch y Groes a chyrchu copa'r Cefn Du cyn troi a dilyn yr union lwybr yn ôl. Er mai cymal byr oedd hwn, dangosodd y goreuon bâr clir o sodlau i weddill y cystadleuwyr, a gwyddai'r trefnwyr mai ras i rhyw ddwsin o'r prif glybiau a fyddai'n hoelio sylw pawb am weddill y diwrnod.

Ras hir oedd yr ail gymal, a'r rhedwyr yn gorfod cystadlu fesul parau, gan ddringo Braich y Foel i gopa Moel Eilio cyn dilyn y grib dros gopaon y Foel Gron a'r Foel Goch - a'r cyfan dan gwmwl. Rhuthro allan o'r niwl i lawr Cefn Drum nes ymuno â llwybr Maesgwm ger adfeilion y Brithdir a hyrddio'n ôl am Lanberis - a chychwyn y trydydd cymal.

Ar eu tonnen eu hunain!

Hwn, o bosibl, oedd y cymal caletaf. Roedd angen i'r parau ddefnyddio map a chwmpawd, gan gofnodi eu hymweliadau â gwahanol safleoedd ar eu taith. Dilyn afon Hwch i berfeddion y cwm, a hynny'n aml dros dir mor wlyb nes ei gwneud yn debycach i geisio rhedeg mewn

(parhad ar y dudalen gefn)

gloch): 'Yn *Panto* mae Robert Deiniol yn disgrifio'i hun fel hogyn tai cyngor sydd wedi cyrraedd enwogrwydd y prif actor ar lwyfan, fel 'sa Gwenlyn ei hun isho profi fod hogyn o Lanbabs wedi cyrraedd y brig.'

Hogyn bach o Lanbabs - blydi Hafod Ola... tai cownsil... Ysgol Gwaun Gynfi... Heiyr Grêd... Dressing Room One!

(*Panto*, 1989)

Mi fydd yn wythnos bwysig iawn ar S4C - yn gyfnod trist o goffâu ar un llaw ddramodydd disglair a gipiwyd oddi arnom yn ddyn ifanc, 59 oed. Ond mi fydd hefyd yn gyfnod o ddathlu a gwerthfawrogi oherwydd bydd gwaith a chyfraniad Gwenlyn Parry i ddiwylliant Cymru yn aros yn fyw am ddegawdau i ddod.

Eurgain Haf Evans

(Mae'r wybodaeth am yr holl raglenni i gofio am Gwenlyn Parry ar dudalen 3.)

ECO'R WYDDFA

**RHIF 283
TACHWEDD**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trysian a Shioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Howlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Eiddir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Deeys Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 9 Bryn Moelyn
(979304)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871020)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872467)

TAN-Y-GOED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, TACHWEDD 19

Os gwelwch yn dda

**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, TACHWEDD 20**

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Rhagfyr	Tachwedd 19	Tachwedd 29	Caeathro	Mr Clive James

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr,
Ar y Bocs 2001

A oes gennych chi dalent canu
arbennig? Ydych chi wrth eich
bodd yn perfformio i
gynulleidfya neu o flaen drych yn
eich ystafell wely? Mae 'Ar y
Bocs' yn chwilio am dalentau
newydd o bob oed ac o bob cwr
o Gymru i gystadlu yn y gyfres
newydd. Byddwn yn cynnal
gwrandawriadau dros y misoedd
nesaf.

Mae enillydd y gyfres yn
derbyn gwobr go arbennig -
rhaglen eu hunain ar S4C!

Cysylltwch â ni ar frys yn un
o'r cyfeiriadau isod:

Ar y Bocs
Al Fresco

44 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD CF11 9WJ
neu 029 20 726 726

nau: alfresco@alfrescotv.com

Aled Jones fydd yn
cyflwyno'r 21 cystadleuydd yn
wythnosol o Hydref 25, 2001
ymlaen am 8.30 o'r gloch. Mae
naw rhaglen yn y gyfres.

Edrychwn ymlaen i glywed
gennych,

Meinir Mai Jones
Cynhyrchydd

EMYR JONES

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

**Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?**

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi):

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda CDH
André (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryr (Caernarfon a'r cylech)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

Bistro

LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: **DANNY A NERYS ROBERTS**

BEICS WIL



**BEICIAU NEWYDD
AC AIL LAW**

• TRWSIO • CYNNAL
• PARTIAU



SIOP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS



**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMYAK

Ar Agor
9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Y Chwarel

Cynedlaethau cyfarwydd â sŵn pedolau a hoelion eu hesgidiau, a'i crëodd i delynegol fydr y cŵn a'r morthwyl a bôn braich, yn ôl y rhew pan oedd rhew yn rhew, a'r Elidir ym mabandod.

Cyn cyrraedd ohoni yn sbort i'r oes fodern a thwristiaid yn fflyd, ildiodd fara beuynddiol i filoedd a chwrw nos Sadyrnau i amryw o sawl Calan Ionawr i Galan Ionawr.

I'r ambell un byr ei gam a thrwm ei droed, a gofia synau ei doe mae'r tawelwch hunllefus iddo yn graith ar amser.

J.R. Jones
Brynsiencyn

(parhad o dudalen flaen)

Amserlen

FO A FE, Nos Wener, 2 Tachwedd, 8.30pm

COFIO GWENLYN, Nos Sadwrn, 3 Tachwedd, 9.00pm


GWENLYN, Nos Sul, 4 Tachwedd, 7.30pm.

Y TŴR (Addasiad newydd), Nos Sul, 4 Tachwedd, 9.00pm

S4C Digidol

SAER DOLIAU, Nos Fawrth, 6 Tachwedd, 10.00pm,

Fandaliaeth yn Llanrug



Annwyl Olygydd,

Cyngor Cymuned Llanrug

Yn ddiweddar daeth i sylw'r Cyngor Cymuned bod fandaliaeth a difrodi eiddo'r Cyngor, yn arbennig yn ardaloedd caeau chwarae Pwll Moelyn a Ffordd yr Orsaf, Llanrug, yn golygu nid yn unig bod yno ddolur llygad ond nad yw'r cyfarpar, a ddarparwyd er budd y gymdeithas, ar gael i'w bwrpas priodol.

Dros y blynyddoedd mae'r Cyngor Cymuned wedi

Y FFIN, Nos Fercher, 7 Tachwedd, 10.00pm

Y TŴR, Nos Fawrth, 13 Tachwedd, 10.00pm,

PANTO, Nos Fercher, 14 Tachwedd, 10.00pm

buddosddi'n hael er gwella'r adnoddau lleol hyn ac mae'n achos o siom a gofid bod y fath ddiffyg parch at anghenion eraill yn golygu y bydd yn rhaid i'r Cyngor gymryd camau ynglŷn â'r offer a ddifrodwyd. Yn anrffod bydd rhaid talu am y fath waith - rhan ohono er mwyn adfer y cyfarpar at gael ei ddefnyddio a rhan fawr tuag at unwaith eto sicrhau diogelwch y cyfarpar hwnnw, ac yn hyn o beth, bydd y gost uniongyrchol yn debygol o fod yn rhai cannoedd, a chost anuniongyrchol, (megis cynnydd yn y premiwm yswiriant) yn fwy fyth wedyn.

Erfyniwn ar bobl yr ardal i oichel rhag caniatáu i'r fath annibendod a chostau ddod i'w rhan eto ac i gydweithio â'r Cyngor i sicrhau bod pawb yn cael budd o'r adnoddau a ddarparwyd, ac i ymfalchïo yn eu hardal a'i chadw'n ddiogel ac

iach. Tynnwn sylw'r ardalwyr at y ffaith mai o'u poced hwy y daw costau adnewyddu ac ail-osod a diogelu cyfarpar cae chwarae gan mai trwy'r praeseb lleol yr ariannir y fath weithgareddau.

Er gwybodaeth i'r ardal, arferiad Cyngor Cymuned Llanrug yw cyfarfod ar y trydydd nos Fawrth o'r mis, a phe byddai unrhyw un yn awyddus i roi mater gerbron, awgrymir iddynt anfon at y Clerc o leiaf wythnos cyn y cyfarfod. Yn y cyfamser, atodaf isod restr o gynrychiolwyr yr ardal, a byddant yn falch o dderbyn sylwadau er gwella'r gymuned.

Cyngorwyr Cyngor Gwynedd:

Brian Jones (870831); Charles Wyn Jones (676733).

Cynghorwyr Cyngor Cymuned Ward Llanrug:

Goronwy Hughes (674389); Derfel Jones (674591); Berwyn P. Jones (674372); Esyllt Llwyd (678020); Eryl W. Roberts (675384); Dafydd Whiteside Thomas (673515); Delyth Tomos (870044); Clifford Williams (674878).

Ward Cwm-y-glo:

Brian Jones (870831); Geraint Jones (871603); Paul Rowlinson (01248-605365); Meinir Thomas (671816).

Ward Ceunant:

Arwel Ll. Thomas (650757); Meryl Green (677149).

Yn ddifffuant
E. Williams
Clerc y Cyngor

antur WAUNFAWR

ymunwch â hwyl

Miri Siôn Corn

nos Wener, 30 Tachwedd, 6.30 o'r gloch

Carolau, Siôn Corn, Pwnsh a Mins Peis,
dewis newydd o anrhegion anghyffredin

am fwy o fanylion ffoniwch ☎ 01286 650 721

www.anturwaunfawr.org



Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a GHINIÔ DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253



DIGWYDDIADAU NADOLIG 2001

FFAIR GAELAF

• Tachwedd 24 & 25

Cybolfa liwgar o draddodiadau'r Nadolig gydag adloniant a gweithgareddau: Paentio Gwynebau/Plwmbo'r Clown - Mici Plwm / Pwnsh & Jiwdi Bydd Siôn Corn yn cyrraedd ar dŷen am 2pm (Groto ar agor o 2pm - 4pm) Mac Tal Mynediad o £1 i'r groto

NADOLIG Y CHWARELWR

• Rhagfyr 2 - 16

Dewch draw i weld ein rhesiad o Dai Chwarelwyr wedi'u haddurno i'w y cyfnod

PRYNHAWN O GAWL & CHÂN

• Rhagfyr 2 - 2pm - 4pm

Prynawn o gawl yng nghwmni Hogia'r Bone a'r Boneathod o Fethesda

GWEITHDAI NADOLIG

• Rhagfyr 8 December (2pm - 4pm)

GWEITHDY DECOUPAGE
Gweithdy crefft ar gyfer y Nadolig

MAE'R HOLL WEITHGAREDDAU AM DDIM
OND MAE TAL MYNEDIAD O £1 I'R GROTO.
MAE BWICIO YN ANGHENFIEDIOL AR CYFER
Y PRYNHAWN O GAWL A CHÂN AT GWEITHDY CREFFT.

AMGUEDDFA LECHI CYMRU

LLANBERIS

digwyddiadaullechi@aocc.ac.uk ☎01286 870630

CHWILOTA

Glan Padarn a Dewi Orwig



Ni ddaeth mwy o wybodaeth ynglŷn â Dewi Orwig gan unrhyw un o'r darllenwyr, ond cefais gyfle i chwilio rhyw ychydig am ei gyfnod yn y Crawia, Llanrug. Fel y dywedodd Mrs Mair Parry, roedd yn byw ar lan afon Saint, ond na chlywodd hi erioed enw ar y tŷ ond 'tŷ Dewi Orwig'.

O astudio'r Rhestrau Etholwyr am y cyfnod, gwelir fod yr ardal hon yn rhan o Ward Penisarwaen ym mhlwyf Llanddeiniolen. Ar gyfer 1921 rhestrir David John Owen (sef Dewi Orwig) dan enw 'Crawia Mills'. Mae 'R' ac 'O' gyferbyn â'i enw sy'n dynodi ei fod yn byw yno (R = Residential qualification) ac yn gweithio yno (O = Occupational qualification). Wrth gwrs, roedd melinau eraill yn y Crawia; Crawia Mills oedd y felin rhwng y ddwy reilffordd yn cael ei rhedeg ar y cyd â'r melinau a adnabyddid fel y Felin Uchaf a'r Felin Ganol - rhan o gwmni teuluol oedd yn cynhyrchu llechi sgwennu ar gyfer ysgolion. Doedd dim cysylltiad rhwng Melin Dewi Orwig â'r rhain.

Nid yw enw Dewi Orwig yn ymddangos ar Restr Etholwyr 1922, sy'n awgrymu ei fod wedi symud oddi yno neu wedi marw. Ond ble cafodd ei gladdu?

Soniais y mis diwethaf fod Ms Ceridwen Foulkes yn sôn am fardd arall o'r enw Glan Padarn. Ysgrifennwyd amdano ef yn barod yn rhai o rifynnau cynharach yr 'Eco'. Roedd yn fardd poblogaidd iawn yn ei ddydd, a llawer o ganu ar ei farddoniaeth. Fe'i ganed yn Nhy'n y Chwarel, Dinorwig, a'i fedyddio'n Thomas David Thomas. Priododd â Mary, merch tafarn y Black Horse, Clwt y Bont ar Dachwedd 1af 1876, ond bu hi farw o fewn dwy flynedd yn ferch ieuanc wyth ar hugain oed. Roeddent bryd hynny yn byw yn Nhy'n y Fawnog, Dinorwig. Ganed

iddynt un mab, Thomas Ll. Thomas yn 1878. Tybed a fu'r fam farw ar enedigaeth y plentyn neu'n gynnar wedyn? Magwyd Thomas Ll. Thomas gyda William a Jane Parry, 12 Deiniol Road, Ebenezer. Efallai fod Jane Parry yn chwaer i Glan Padarn.

Ail briododd Glan Padarn ag Elizabeth, sef chwaer ei wraig gyntaf. Mae'r teuluoedd wedi eu claddu ym mynwent Macpelah. Dyma'r cofnod ar eu beddau:

Er serchog gof am Glan Padarn. / Bu farw Awst 14 1888 yn 40 oed.

Awen Teg ei wyneb - tawel oedd, Tlws ei naturioldeb, Telynoraï drist alareb

A chân hoff na threchai neb.

Alafon

Hefyd ei wraig, Mary Thomas. / Yr hon a fu farw Medi 31 1878 / yn 28 oed.

Hefyd Elizabeth, chwaer Mary, ac ail briod. / Bu farw Awst 22 1928 yn 74 oed.

Cyfodwyd y gofeb hon gan gyfeillion ac edmygwyr y bardd.

Fe sylwch fod camgymeriad wedi ei wneud ar y gofeb. Nodir fod Mary wedi marw ar Fedi 31, ond wrth gwrs, dim ond 30 o ddyddiau sydd ym mis Medi!

Roedd y mab yn ddeg oed pan fu farw Glan Padarn, ac erbyn hyn yn cael ei fagu ar aelwyd William a Jane Parry yn 12 Deiniol Road, Ebenezer.

Ni chladdwyd y mab gyda'i rieni er iddo farw o flaen ei fodryb, sef ail wraig ei dad. Fe'i claddwyd mewn bedd arall pan fu farw yn ŵr ifanc 32 oed ym Medi 1910. Yn yr un bedd claddwyd William (31 Mawrth

1935 yn 81 oed) a Jane Parry (23 Rhagfyr 1937 yn 76 oed). Mae cof ar y garreg fedd hefyd am ddau o'u meibion - Henry (19 oed) 'a gollwyd yn y Rhyfel Mawr' ar 3 Medi 1916, a Robert (29 oed) 'a gafwyd wedi boddi yn afon Weaver' ar 24 Awst 1920.

Oes rhywun a mwy o wybodaeth am y teuluoedd hyn?

Chwaraeon Deiniolen

Wrth bori drwy'r Herald Cymraeg am 1922 deuthum ar draws cyfeiriad at fabolgampau yn cael eu cynnal yn Neiniolen ym mis Gorffennaf. Mae'n ymddangos ei fod yn gyfuniad o garnifal a mabolgampau. Y seindorf, wrth gwrs, oedd yn awain yr orymdaith i'r cae, ond ni nodir yn union pa gae ydoedd. Ar wahân i'r cystadleuthau arferol fel gwisg ffansi a rasmus berfa ac yn y blaen, roedd 'rhedegfeydd' a 'rasmus beics' yn cael eu cynnal hefyd, a deuai'r cystadleuwyr o fro'r 'Eco' a thu hwnt. Daeth rhai yno o Gaernarfon, Bethesda a Rhosgadfan i gystadlu. Cynhaliwyd dwy ras filltir ar feic - un i chwarelwyr, a'r llall yn 'agored i'r byd'! a ras ddwy filltir ar feic. Y ras hwyaf oedd 'rhedegfa 5 milltir'. Fe'i henillwyd gan W. Roberts, Trosgol, gydag O. Williams, Seion yn ail. Pwy tybed oedd yr athletwyr cynnar hyn?

Teulu Pickering

Yn y rhifyn diwethaf roedd Alan Parry yn holi am y teulu hwn. Daeth Eirwyn Williams, Llwyncoed i gysylltiad yn sôn am glocsiwr o'r enw Pickering yn byw ym Mryn Crwn, Cwm-y-glo ar ddiwedd y bedwaredd ganrif. Roedd mab i'r clocsiwr wedi bod yn ddeintydd ym Mangor, a thybiai fod rhai o'r teulu yn byw yng nghyffiniau Caer. Os oes mwy o wybodaeth ar gael, cofiwch gysylltu.

Alarch Gwyrfaï

Daeth cais gan Mrs Helen Royle Edwards, Bontnewydd, am fwy o wybodaeth am y cymeriad uchod a gafodd ei enwi yn rhestrau marwolaethau Llanberis. Credaf fod peth gwybodaeth wedi ei roi amdano yn rhai o rifynnau cynnar yr 'Eco'. Os cofiaf yn iawn, roedd yn frodor o'r Waenlawr, a bod y ddiweddar Mat Pritchard o'r un tculu.

Pwy oedd Yvonne?

Ac wrth sôn am Mat Pritchard, bûm ar ymweliad yn ddiweddar â thref y llyfrau - Y Gelli Gandryll - ac wrth bori yn selerydd rhai o'r siopau llyfrau yno (yn y selerydd mae'r rhan fwyaf o'r llyfrau Cymraeg yn cael eu stocio!) deuthum ar draws copi o *Tros Bont Penllyn*. Mae'r llyfr wedi ei gyflwyno 'i'm cyn-athrawon sy'n fyw, i

goffa'r gweddill, ac i Bawb oedd yno hefo mi.' Yna, yn llawysgrif Mat Pritchard ychwanegwyd 'ac i Yvonne (os adwaen fi bellach) i gofio gwynfyd ein gwanwyn ym Mryn-rêf.' Fe'i harwyddwyd 'Mat'. Does dim angen gofyn a gafodd y llyfrwerthwr hwnnw sêl!

Llyfr Cofnodi Marwolaethau Llanberis

Cychwynnodd Ionawr 1887 gyda deg o farwolaethau yn Llanberis. Un ohonynt oedd gwraig Owen Owen, Fron Goch 'yn marw nos Iau yn ei thy heb i neb ei gweld tan y bore.' Enwir y rhan fwyaf ar y rhestr wrth eu henwau, heb na Mr na Mrs, ond mae'n amlwg fod ambell un yn haeddu teitl yn nhyb y cofnodwr. Un felly yn amlwg oedd Miss Williams, Victoria Hotel a fu farw yn Ebrill. Ym mis Awst, lladdwyd Pierce Griffiths, Turner Street yn Chwarel Glyn, ac wythnos yn ddiweddarach, bu farw Ellin Edwards, Gas House - 'yr hon a fu farw yn y W.C.'! Ar Dachwedd 5ed, cafwyd Owen Williams, Pen Ceunant 'wedi boddi yn Afon Ceunant Mawr.'

Nid yw'r cofnodion am 1888 yn gyflawn, oherwydd mae'r rhestr yn darfod ar ddiwedd Gorffennaf. Prin yw'r sylwadau ar gyfer y flwyddyn olaf hon, ar wahan i'r ffaith fod Thomas Owen, Rali wedi marw ym mis Ebrill wedi iddo 'gael ffit ar Allt Hafod Owen.' Bu dau o drigolion hynaf y plwyf farw hefyd, sef Charles Currie, Llwyn Celyn a Jane Closs, Gellihibant, ill dau yn 94 oed.

A dyna ddiwedd y cofnodion, ac mae gen i ofn nad wyf fawr nes i'r lan ynglŷn â phwy a'u rhestrodd nac i ba ddiben. A does neb wedi cysylltu chwaith i gynnig unrhyw wybodaeth am y cymeriadau a enwir yn y rhestr marwolaethau.

Y mis nesa' cawn olwg ar agoriad swyddogol Y Sefydliad Coffa yn Llanrug - nage, nid yr un ar ei newydd wêdd a ddigwyddodd ddeufis yn ôl, ond yr un gwreiddiol, a agorwyd gan Mrs Lloyd George. Cipolwg hefyd ar nodiadau 'Bro Deiniolen', llyfryn mcwn llawysgrif a fenthyciwyd i mi gan W. Orwig Williams a ddaeth yn wreiddiol o law cymeriad a adnabyddid yn Neiniolen fel Eban Knockin. Mwy am hynny y mis nesaf, ond cofiwch os oes gennych unrhyw wybodaeth am gynnwys colofn y mis hwn, neu holiad ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes y fro, cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn : 01286 673515)

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fuesesau a chartrefi

Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

Un funud fach

TAN GWYLLT

Unwaith y flwyddyn y byddem yn cael tân gwyllt ers talwm. Pethau ar gyfer Noson Guy Faulks oedden nhw. Erbyn hyn mi gewch chi dân gwyllt gydol y flwyddyn mewn partïon a chyngherddau a dathliadau o bob math. Ond nid yw hynny'n golygu bod rhamant Noson Tân Gwyllt wedi darfod chwaith, a bydd yna wirioni eto nos Lun nesaf ym miri lliw a sŵn ac ogleir noson fawr. Bydd rocedi yn gwibio, a fflachiadau yn goleuo'r nos, a'r ffrwydrion bach yn bwrw eu gwreichion lliwgar. Mwynhewch y noson. Ac os byddwch yn tanio, byddwch ofalus. Mi wyddom am y peryglon a'r damweiniau sy'n digwydd bob blwyddyn. Noson ddiogel i chi.

Mae pobl Kabul a dinasoedd eraill Affganistan wedi hen arfer â'r cleciadau a'r goleuadau ers mis a mwy. Ac mae'n beryg y bydd y rocedi a'r ffrwydrion efo nhw am wythnosau lawer eto. Does na fawr o firi'n dilyn y tân gwyllt iddyn nhw, ac mae'n beryg mai lliw gwaed a sŵn dagrau ac ogleir dinistr sy'n llenwi eu pentrefi a'u dinasoedd. Mae'r bobl yn ffoi, ac yn newynu, ac yn marw. Ac am ryw reswm rhyfedd, mae nhw'n gwrthod yn lân â chredu addewid Mr Bush a Mr Blair nad yn eu herbyn hwy y mae'r rhyfel o gwbl.

Daeth Mr Blair i Gaerdydd ddydd Mawrth i roi'r bobl sy'n gwrthwynebu'r rhyfel yn eu lle. Mynnodd eu hatgoffa am ddigwyddiadau erchyll Medi 11eg, ac esbonio mai dyna pam yr aed i ryfel. Fel tasa rhywun wedi gallu anghofio! Fe gymer hi fwy na deufis prin i bobl anghofio cwmp y ddau dŵr. Dydi pobl ddim yn gwrthwynebu'r bomio am eu bod nhw wedi anghofio beth ddigwyddodd yn Efrog Newydd. Mae yna resymau gwell na hynny dros alwadau pobl am ddod â'r rhyfel i ben.

Ac mae Mr Blair yn gwybod hynny. A dyna pam y cafwyd un gair pwysig ganddo yn y Cynulliad ddydd Mawrth pan ddywedodd nad yw'r rhai sy'n gwrthwynebu'r rhyfel yn 'llwfr'. Aeth ymlaen i gydnabod bod modd i bobl amau ac anghydweld â'r hyn sy'n digwydd.

Ac roedd yn dda clywed hynny. Oherwydd mae yna beryg bod hawl pobl i ddweud eu barn dan fygythiad. Mae'r rhyddid y sonnir amdano yn cynnwys rhyddid i feddwl a chredu fel y mynnom. Mae'n cynnwys ein rhyddid crefyddol i arddel cin ffydd, ac i addoli, ac i weithio allan oblygiadau ein ffydd yn Nuw a'i Fab Iesu Grist yn ein bywydau bob dydd. Mac amddiffyn yr hawl honnw mor bwysig ag amddiffyn y byd rhag terfysgaeth.

Mynnwn ninnau arfer yr hawl sydd gennym i addoli a thysiolactau i'n Gwaredwr amgyl yn y dyddiau amodd a chymhleth hyn.

JOHN PRITCHARD

RHODDION

£10: Pffon a Keith; Ifor a Margaret, Llanwern, Racca, Peniarwaun.
£5: Mrs Kathleen Williams, 6 Glanrafon, Llanberis; Mrs

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

CLWB ORWIG: Dathlodd Clwb Orwig ei ben-blwydd cyntaf yn ddiweddar trwy i'r aelodau deithio ar y tren o Gaernarfon i'r Waunfawr, ac yna mwynhau Cinio'r Dathlu yn Antur Waunfawr. Rhoddodd y wledd a'r daith foddhad mawr i bawb. Yn ein cyfarfod diwethaf cynhaliwyd Gwasanaeth Dwyieithog o Ddiolch am y Cynhaeaf. Lluniwyd y rhaglen gan Miss E Wyn Jones. Cyfanswm yr offrm a dderbyniwyd oedd £71.50, a phenderfynwyd ei gyflwyno i

Gyfeillion Meddygfa Llanberis. Diolchodd Mr John Brennan, a oedd yn llywyddu, i bawb a fu'n paratoi a chymryd rhan yn y gweithgareddau. Enillwyd y ffrwythau a'r llysiau, a gyflwynwyd gan Margaret Faulkner, gan Terry Taylor, a'r blodau a drefnwyd gan Betty Bower, gan Ellen Wyn Jones. Diolchwyd i'r aelodau a fu'n casglu o dŷ i dŷ ar ran Age Concern yn Ninorwig a Deiniolen yn ddiweddar gan John Brennan. Rhoddwyd y te gan Margaret Faulkner a Wendy Wiggins.

Siop Dda

(Cyfiethiad Mrs Dilys Baylis o gerdd y Caplan Charlie Riddle, Newfoundland, Canada. Cafodd Mrs Baylis y geiriau gwreiddiol gan Griff, ei hen bostman yn Llanberis cyn iddo ymfudo i Canada.)

Welaist ti'r siop ar y gornel yn gwerthu nwyddau da – a'r drws yn llydan agored? Wel, i mewn yr es am chwa.

Gwelais angylion ym mhobman yn sefyll o gwmpas y lle – rhodd un yn fy llaw rhyw fasged 'Cym ofal,' gynghorodd efe.

Beth bynnag oedd angen Cristion roedd yno ar gael yn y lle, 'Os na elli gario llawer bydd fory ar agor,' medd e'.

AMYNEDD a brynais gynta, a CHARIAD oddi ar silff gerllaw, a DEALLTWRIAETH rhaid ei gael a gwir DDOETHINEB oedd wrth law.

Fe gefais fag neu ddau o FFYDD ac YSBRYD GLAN wrth raid, roedd digon yno ym mhobman i gadw dyn rhag llaid.

Ymlaen a fi a phrynu NERTH a DEWRDER at fy ngwaith; llawn oedd fy masged erbyn hyn a rhaid cael GRAS i'r daith.

Fe chwiliais am IACHAWDWRIAETH gan fod hwn yn rhad ac am ddim a chefais ddigon i ti a fi – wrth y cownter rhaid talu yn chwim

Cerddais i fyny'r llwybyr nawr a gwelais fod GWEDDI ar gael, a rhaid oedd cael honno yn siwr i goncro pob pechod gwael.

HEDD a LLAWENYDD gefais nawr, roedd digon ym mhob man CANU a MOLIANT ar bob llaw, ces ddigon i lenwi'r llan.

Yna gofynais i'r angel 'faint sydd arnaf i ti?' ond gwenu a wnaeth a d'wedyd 'Cymer yr oll, mlaen â thi.'

Ond eto gofynais iddo, 'Dwed wrthyf faint fy nyled i ti?' ond gwenu a wnaeth a d'wedyd 'Fy mab – IESU a'i talodd i ti.'

Gŵyl Nadolig' Tachwedd 24 (5.00 yh – 7.00 yh)

Mae Consortiwm Busnes Ardal Llanberis wedi trefnu cyfres o weithgareddau erbyn tymor y Nadolig cleni. Bwriedir i'r gweithgareddau a drefnir ganddynt ddwyn y pentref cyfan at ei gilydd, gan sicrhau bod busnesau lleol a'r pentrefwyr yn rhan o'r hwy. Uchafbwynt y gweithgareddau fydd seremoni cynnwys goleuadau Nadolig newydd y Stryd Fawr. Prynwyr y golcuadau yn ddiweddar gan y Consortiwm Busnes gyda chymorth ariannol oddi wrth Gyngor Cymuned Llanberis a Bwrdd Datblygu Cymru dan gynllun y Bwrdd ar gyfer Trefi a Phentrefi Bychain.

Yn ôl Jacquie Knowles,

Gwyneth Roberts, Merddyn Coch, Llanberis; Ernest a Nan, 8 Rhos Efrog, Llanberis
£3: Caryl, Carlinig, Ffordd Ty Du, Llanberis
£2: Sharon ac Adrian, d/o Beews Eryri, Llanberis

Rheolwr Prosiect Llanberis, 'Bwriadwn i'r gweithgareddau roi sylw i rinweddau Llanberis a phwysleisio'r ffaith bod busnesau'r pentref yn agored drwy gydol y flwyddyn. Mac yma ddigon o bethau i'w gwneud ar hyd y flwyddyn. Rydym wedi trefnu'r Wyl i gyd-daro â Ffair Acaf yr Amgueddfa Lechi. Bydd y tân gwyllt fydd yn cloi'r Ffair, oddeutu 4.45 o'r gloch yn nodi hefyd ddechrau'r Wyl yn y Stryd Fawr am 5.00 o'r gloch.

'Nid yw'r holl drefniadau wedi eu cwblhau eto, ond gobcithiwn gael rhyw fath o orymdaith ar hyd y Stryd Fawr, gyda seremoni fechan i gynnwyr goleuadau. Rydym hefyd yn gobcithio cael adloniant a lluniacth ar gyfer y bobl leol yn ystod yr Wyl.

Gall unrhyw un sy'n awyddus i helpu i drefnu'r Wyl ffonio 01286 872702 am ragor o wybodaeth.

Cyngor Cymuned Llanberis.

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, 18fed o fis Hydref gyda'r Cynghorydd Dei Tomos yn y gadair. Croesawyd y Cynghorydd Douglas Pritchard fel aelod cyfetholedig ar Ward Padarn o'r Cyngor, a derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Fred Owen, aelod arall cyfetholedig ar un ward.

Derbyniwyd adroddiad gan y cadeirydd ar gyfarfod a gynhaliwyd i drafod y posibiladau o ymestyn llwybr beicio Lôn Las Peris. Cynhelir cyfarfodydd pellach i drafod yr oblygiadau ariannol yn ystod mis Tachwedd.

Penderfynwyd anfon unwaith yn rhagor i Gyngor Gwynedd ynglŷn â phroblem dŵr gorlif yn Field Terrace, Llanberis yn dilyn cyfnodau o lawogydd trwm.

Mae Cyngor Gwynedd yn trefnu i arwyddo'r gwahanol stadau tai yn ardal Dol Elidir.

Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Gwmni Adwy Cyf ynglŷn â phryderon yr aelodau am y dull o osod hen adeilad y Co-op.

Ystyriwyd naw o geisiadau cynllunio, ac nid oedd gwrthwynebiad i'r mwyafrif ohonynt, ond penderfynwyd gwrthwynebu cais i droi hen adeilad yn feudy campio wrth wal y fynwent yn Nant Peris ac i wyrthwynebu unwaith yn rhagor y cais i droi Coedwig Fictoria yn faes carafanau.

Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Derek Jones ar gyflwr y cerrig beddau yn y fynwent, a gwneir trefniadau i ddiogelu nifer fechan ohonynt. Penderfynwyd hefyd docio canghennau coeden wrth ochr hysbysfwrdd y fynwent, a gwnaethpwyd trefniadau i glirio sbwriel oddi yno.

Penderfynwyd fod y Cyngor yn ymaelodi â Chymdeithas y Cerddwyr. Bydd arwyddion llwybrau cyhoeddus yn cael eu gosod ar Lwybr 10a, o Bentre Castell i Gastell Dolbadarn.

Adroddwyd fod y gwaith o drwsio a thaeluso'r meinciau cyhoeddus bron wedi ei gwblhau gan weithwyr Menter Fachwen.

Yn dilyn cwynion ynglŷn â cham-ddedfnydd o'r cae chwarae ger Tai Frondeg yng ngefn Stryd Newton, penderfynwyd gwneud ymholiadau ynglŷn â pherchnogaeth y tir.

Nodwyd yr angen i gysylltu â Chyngor Gwynedd i drefnu i docio codd a changhennau mewn amryw o fannau yn Llanberis a Nant Peris ble mae gordyfiant yn achosi problemau i gerddwyr.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn 'Angorfa' ar nos Iau, 15ed o Dachwedd am 7.00 o'r gloch.

O SIAMBAR SELWYN

Dwi'n credu i mi gyfadde sawl tro ei bod hi'n gas gen i glirio. Mae gen i gymaint o hen bapurau a hen lyfrau wedi eu casglu dros y blynyddoedd ac, wrth geisio'u didoli, rwy'n sylwi mai anaml iawn y bydda i'n barod i daflu dim i'r bin sbwriel.

Mae'n amlwg fy mod i wedi cael blas ar gasglu hen englynion ers blynyddoedd yn enwedig englynion beddargraff ac englynion am feddwod. Dyma rai:

Beddargraff fy Nain
Mam fy mam, yma mae hi -
yn huno

Hen wraig onest drwyddi,
Dynes, medd pawb amdani,
Dda iawn iawn, oedd 'y nain i.
Dewi Havesp

Bu llawer o sôn am Twm o'r Nant ym Mhrifwyl Dinbych eleni. Nid pawb sy'n paratoi beddfaen a cherfio arni tra mae o ar dir y byw, ond fe wnaeth Twm o'r Nant hynny. Ym mynwent yr Eglwys Wen ger Dinbych, gwelir y feddfaen lle bu i'r bardd ddechrau torri arni, ond bu farw cyn ei gorffen. Ni chafodd dorri ond 'Llyma y claddwyd'. Gofynnodd ei fab yng nghyfraith iddo beth a fwriadai ei dorri, ateb Twm oedd:

Llyma y claddwyd Twm o'r Nant
Bet ei wraig a phedwar o blant.

Beddargraff Isaac y Teiliwr
Isaac a orwedd isod, - prysur bu'n
'Pressio' aml i wasgod,
Ei gorpws bach afiach od,
A chwelir gan y chwilod.

Trebor Mai

Yn Eisteddfod Genedlaethol
Ystradgynlais 1954 (Steddfod y
Mwd) gofynnwyd am englynion
beddargraff. Dyma un:

Amaethwr

'Rhen gaffer yn ei goffin - ni all
fynd

A llo i fart Caerfyrddin,
Dim i 'show' i weld 'mashin'
Distaw ydyw ei Austin.

Roedd 'na un wedi anfon
englynion i'r gystadleuaeth hon
ar bapur toiled, gyda'r ffug enw
Ymdrech, Ymdrech Arall a
Llywyddiant.

Mae'r ddiod wedi bod yn destun
englyna i'r beirdd ers
canrifoedd. Bardd oedd yn
hannu o Sir Feirionnydd oedd
Siôn Dafydd Las 1650-1690,
brodor o Lanuwchllyn. Ei
wendid mawr oedd ei ymarfer i
yfed yn ormodol, er i'w
gyfeillion apelio arno i beidio.
Dyma gyffes Siôn:

Ofer, pan hanner hunwyf - a hefyd
Ofer pan ddeffrowyf,
Afradus ofer ydwyf
Fe wyr Duw ofered wyf.

Mae englyn Gwilym Deudraeth
yn gyfarwydd i ni:

Ddoe yn gwatwar a gwario -
meddw oedd

Meddw heddiw eto,
A meddw fydd medda fo
Nes i bridd ei sobreiddio.

Rhag ofn i chi yfed gormod,
cofiwch am rybudd yr englyn
hwn:

Fe losgodd ei fol â wisgi - a
chysgodd

Uwch casgen o frandi,
Ddiwrnod tost ddaw arnat ti,
Hel esgyrn i'w hail losgi.

Dyma englyn ar y ddihareb:
Unwaith yn ddyn dwywaith yn
blentyn:

Plentyn yw dyn dechrau'r daith, - e
ddaw

Yn ddyn ar ei ymdaith,
Ac os efe ga' oes faith
Yn ôl daw'n blentyn eilwaith.

Ac i gloi am y tro, beth am y
bardd o Gymro a syrthiodd
mewn cariad â Saesnes o'r enw
Mary, ac yn gofyn iddi ei briodi:

You may manage my money - you
may make

Me more pure and happy
Well met you are all mighty,
Mary, you must marry me.

P'run yw hoff englyn rhai o
ddarlennwyr yr Eco, ys gwn i?
Anfonwch air.

Yr Ardd

'Fala, 'fala filoedd.' Mae'n
amser hel afalau unwaith eto, a
rhag ofn eich bod wedi colli
risêt y Seidr, dyma fo unwaith
eto.

3 phwys o afalau; 6 chwart o
ddŵr; 2 bwys o siwgwr; 3
lemwn.

Torri'r afalau'n chwarteri a
gadael y croen. Eu rhoi mewn
desgil fawr hefo'r dŵr a'u gadael
yno am wythnos gan roi tro
arnynt bob dydd. Yna
ychwanegu'r siwgwr a'r lemwn,
eu gadael am ddiwrnod a rhoi
tro arnynt rwan ac yn y man. Eu
gadael i sefyll am ddiwrnod
arall, yna eu hidlo a rhoi'r sudd
mewn poteli a'i adael i sefyll am
ddyddiau.

Bydd cystal â siampên ond yn
dipyn rhatach. Mae'n werth y

drafferth. Gallwch yrru car wedi
yfed hwn yn hollol ddiogel. Mae
llawer diod hyfryd iawn i'w
gael. Byddai fy mam yn gwneud
gwin riwbob. Efallai bod fan
rywun gyfarwyddiaid i'w
cynnig i mi.

Mae cymaint o bethau y gellwch
eu gwneud o gynnyrch gardd.

Yr oedd rhywun yn gofyn i
mi y diwrnod o'r blaen am risêt
siytni betys neu fitrwt. Byddaf fi
yn ei wneud fel y siytni afalau:

Hanner peint o finegr;
hanner pwys o afalau; 4 owns o
nionyn; 2 owns o resins a
sultanas; hanner llond llwy de o
sunsur mân; ychydig o nytmeg;
pinsiad bach o bupur cayenne a
mymryn o fwstard.

Torri'r afalau a'r nionod yn
(parhad ar dudalen 22)



Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal, yn cynnwys:

PENISARWAUN, DEINIOLLEN, LLANRUG A LLANBERIS

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar **871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DIOLCH. Dymuna Einir a Geraint, Gwêl Elidir ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r gofal a gawsant ar achlysur genedigaeth eu mab, Huw Gwynn.

DIOLCH. Dymuna Sian, 2 Bryn Gro ddiolch yn gynnes iawn am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar.

UNDEB Y MAMAU: Cafwyd cyfarfod yn Hafan Elan, Llanrug nos Lun, Hydref 1. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mrs E. Taylor, Mrs W. Jones, Mrs M. Roberts a Mrs Menna Roberts. Darllenwyd munudau o'r cyfarfod a gafwyd y mis diwethaf a phasiwyd eu bod yn rhai cywir, a thrafodwyd rhai materion gan Mrs M. Latham. Y gwesteion oedd Mr a Mrs I. Franks. Yr oedd Mrs Franks wedi paratoi cwis ar 'Gymorth Cyntaf' a sut i drin llosgiadau oedd pwnc Mr Franks. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs K. Jones a Mrs M. Latham a diolchwyd iddynt ac i Mr a Mrs Franks gan Miss Meira Williams. Rhoddwyd y raffl gan Mrs K. Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs J. Ransom. Terfynwyd trwy adrodd y Gras.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i Sian, 2 Bryn Gro ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen, hefyd i Mrs Enid Price, Stryd Newydd adref o Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH. Dymuna Mrs Margaret (Peggy) Rowlands, Tal Afon ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymodogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80. Diolch arbennig i David, John a Ieuan a'u teuluoedd am y wledd annisgwyl.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Gwyndaf a Mrs Mair Huws (prifathrawes yr ysgol) ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf.

CAPEL Y TABERNACL. Dydd

Sul, Hydref 21 cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch gyda Mr Merfyn Jones yn gwasanaethu a Mr Gareth Jones wrth yr offeryn. **CLWB Y PLANT.** Bu'r plant yn brysur iawn yn ddiweddar gan iddynt fynd i Gapel Ebeneser Deiniolen i ddarllen nodedig. Hefyd maent wedi gwneud banner hardd a'i gosod ar fur y capel. Diolch i Graham a Cassie Thomas am ofalu am y plant.

Dyma drefn yr oedfaon am fis Tachwedd:

- 4: Clwb y Plant am 2; Parch Gwynfor Williams am 4.
- 11: Clwb y Plant am 2; Mr R. Lloyd Jones am 4.
- 18: Clwb y Plant am 2; Parch O.G. Williams am 4.
- 25: Clwb y Plant am 2; Oedfa i'w threfnu.

Llongyfarchiadau i blant y pentref a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Llanrug a Chwm-y-glo. Diolch yn ddiffuant i'r rhai a fu'n hyfforddi'r plant.

EGLWYS SANT GABRIEL. Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch dydd Sul, Hydref 14. Fore Sul gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan ein Rheithor, y Parchedig Philip Hughes. Nos Sul, Pregeth a Gosber eto gan ein Rheithor gyda chymorth ein Curad, Vittoria Hancock. Yr organyddion oedd Mrs Cassie Thomas, Cwm-y-glo a Mrs Susan Williams, Ceunant. Diolch yn fawr iawn i'r ddwy am eu gwasanaeth.

Dymuna'r Rheithor a'r Wardeniaid ddiolch unwaith eto i bawb am addurno'r Eglwys mor hardd ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a'r blodau hardd yn ystod yr ŵyl.

CYNGERDD. Nos Fawrth, Hydref 16 cynhaliwyd cyngerdd gyda Lleisiau Lliwedd gyda'u harweinydd, Mr Gareth Jones. Cymerwyd rhan hefyd gan Maureen Rhys, Sharon Vaughan Williams a Caron Williams. Arweinydd y noson oedd John Ogwen.

Dymuna'r Parchedig Philip Hughes ac aelodau Eglwys Sant Gabriel ddiolch o galon i'r Parchedig Gwynfor Williams ac aelodau Capel y Tabernacl am gael ei ddefnyddio unwaith eto.

Hefyd, diolch i bawb am droi i fyny i'w gwneud yn noson mor llwyddiannus. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol ac am y rhoddion tuag at y raffl. Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth. Yr elw at Eglwys Sant Gabriel.

Dyma enillwyr y raffl: Mrs Clarke, 1 Vaynol Cottages, Llanberis; Mrs Eurwen Thomas, 9 Stryd y Ffynnon, Llanberis; Mr Brown, 97 Cae Mur, Caernarfon; Mrs Marlene Roberts, 11 Maes Tryfan, Groeslon; Mr Arthur M. Griffiths, Llys Arfon, Bethel; Mr Wyn Morris, New Street, Cwm-y-glo; Mrs Catherine ?? Llani Gwta, Rhostryfan; Mr Hilda Orritt, Morannedd, Cwm-y-glo; Mr Martin Murphy, Penscoins, Felinheli; Mr Marc Jones, Dolwen, Pontrhyallt; Mrs Joyce Jones, 27 Dôl Elidir, Llanberis; Mrs Heulwen Parry, 57 Glan Ffynnon, Llanrug; Mr Gwyn Antur Jones, Bron Meillion, Bethel; Mrs Coxon, 38 Trem Eryri, Porthaethwy; Mrs Rita Williams, d/o Ysgol Cwm-y-glo; Mrs Freda Neale, 2 Maes Gerddi, Cwm-y-glo; Mrs Jean Mummery, 3 Penrhos, Bethel; Mrs N. Evans, 26 Bryn Tirion, Penisarwaun; Mrs Alice Peters, 13 Cremlyn, Bethel; Mr Barry Jones, 2 Tai'r Bwthyn, Penisarwaun; Mrs Nicola Owen, 29 Goodman Street, Llanberis; Mrs Llinos Hughes, Glan Gors, Bethel; Mrs E. Hughes, Snowdon Street, Llanberis; Arwyn Jones, Isfryn, Cwm-y-glo; Mrs Roberts, 5 Turner Street, Llanberis.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Fore Sul, Medi 30 roedd hi'n Sul Katilau, y ferch ifanc o Kenya y mae Cymanfa Annibynwyr Dosbarth Cwm-y-glo yn cyfrannu at ei haddysg drwy Gymdeithas 'Action Aid'. Roedd hi'n braf gweld tair Ysgol Sul, Ebeneser Deiniolen, Tabernacl Cwm-y-glo a Bosra Penisarwaun, tua 50 o blant ac oedolion, yn ymuno am awr a hanner hapus a difyr yn canu hoff emynau, gwylio fideo fer am hanes Duw yn creu y byd, a chael cwis ar hanesion o'r Beibl. Yng nghanol y gweithgareddau cafwyd cyfnod byr o ddarllen distaw nodedig er budd addysg Katilau - pawb yn dawel a'u trwynau yn eu Beiblau neu lyfr crefyddol, a'r plant lleiaf yn gwrandao ar stori yn y 'stafell fach'.

Gwnaed casgliad o dros £200 a diolchir i bawb am eu haelioni. **EISTEDDFOD LLANRUG A CHWM-Y-GLO**

Dydd Sadwrn, Hydref 13

cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm-y-glo yn Ysgol Uwchradd Brynrefail. Dyma'r tro cyntaf i'r ddau bentref ddod at ei gilydd i gynnal yr eisteddfod, ac fe brofwyd yn hynod o lwyddiannus gyda mwy na 200 yn y gynulleidfa. Daeth nifer fawr o Gwm-y-glo i gystadlu wedi eu hannog gan Mrs Mair Huws, Pennaeth Ysgol Cwm, ac fe lwyddwyd i gipio nifer uchel o wobrau, gan gynnwys *Tlws am y Perfformiad Canu* gorau (oed cyntadd) gan *Ceri Ann Jones* a *Tlws Llefary* gorau (oed cynrtadd) gan *Sioned Mai Jones*.

Cynrychiolwyd Llanrug yn dda hefyd. Cipiwyd *Cadair Lowri* gan *Ffion Wyn Roberts*, Llanrug a'r *Tlws Offerynnol* gan *Declan Jones*, Llanrug. Yn dilyn cystadleuaeth o safon uchel enillwyd *Cadair yr Eisteddfod* gan *Iwan Rhys* Llanrug a *Thlws yr Ifanc* gan *Debbie Hughes*, Llanrug.


Doilchodd y Cadeirydd, Rolant Wynne, i'r canlynol:

Y Beirniaid: Cerdd - Andrew Angel; Llefary - Carys Armstrong; Llenyddiaeth - Meinir Pierce Jones; Dawns - Anwen Edwards; Celf - Frank Green; Coginio a Gwnio - Bethan Owen; Ffotograffiaeth - Islwyn Jones; Cyfeilydd - Megan Roberts.

Mrs Nona Breeze a Gorsedd Beirdd Ysgol Uwchradd Brynrefail; Mrs Heulwen Evans a merched y Ddawns Flodau; Mrs Beryl Thomas am drefnu'r blodau; Mr Berwyn Hughes am wneud y Gadair; Mr Eifion Jones, Ysgol Uwchradd Brynrefail ac i bawb arall a gefnogodd yr eisteddfod ym mhob ffordd.

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun

Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646



Peidiwch gori ar stori - anfonwch hi i'r ECO

PRYD I BAWB

Bwffe blasus o safon at bob achlysur

CINIO BUSNES

BEDYDD

PEN-BLWYDD

TE ANGLADDAU

CERID MACKINNON
(01286) 673190



GWASANAETH LLEOL AR CYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU...

RHOSTIO MOCHYN

AR CYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188



DIWRNOD IEITHOEDD EWROP 26 MEDI 2001

Dydd Mercher 26ain o Fedi dathlwyd ddiwrnod ieithoedd Ewrop yn Ysgol Bethel.

Roedd yr olygfa yn y neuadd yn lliwgar iawn gyda pawb wedi eu gwisgo mewn dillad gwahanol wledydd a phob grŵp yn cael cyfle i sefyll pan alwai Mrs Guillemmin enwau'r gwledydd.

Yn ystod y bore daeth pobl ifanc sy'n astudio Ffrangeg yn Ysgol Brynrefail i roi gwersi Ffrangeg i ddosbarthiadau 5 a 6. Roedd y sesiynnau yma'n hynod boblogaidd.

Bu dosbarth Derbyn a blwyddyn 1 yn gwneud pizza a'u bwyta wedyn wrth gws.



Dydd Mercher roedd pawb yn ysgol Bethel wedi gwisgo i fyny fel plant o wledydd o Ewrop fel Sbaen, Ffrainc, Sweden, Yr Alban a llawer mwy. Roedd pawb yn ysgol Bethel wedi gwisgo'n wahanol i'r arfer.


Pan gerddais i fewn i'r ysgol yr unig beth welais oedd lliwiau o bob math fel coch, du, glas, gwyrdd, oren a gwyn. Pan gerddais i fewn i'r dosbarth roedd yn edrych yn wahanol oherwydd y dillad rydw i wedi arfer ei weld yw glas ond lliwiau gwahanol welais y diwrnod yma. Roedd Mrs Elis Blwyddyn 5 wedi gwisgo ffrog y ddraig goch ac roedd Mrs Guillemmin wedi gwisgo fel Ffrances. Roedd Mr Bates Blwyddyn 6 wedi gwisgo fel dyn o Sbaen. Roedd Mrs Griffiths Blwyddyn 4 wedi gwisgo fel chwaraewr rygbi o Gymru, roedd yr athrawon i gyd wedi gwisgo. Naw o'r gloch aeth pawb i'r neuadd. Yn y neuadd roedd Mrs Guillemmin yn dweud wrth bawb o Sbaen i sefyll ac pawb o Ffrainc sefyll pawb o bob gwlad arall sefyll i fyny.

Erbyn ddeg o'r gloch roedd plant chweched dosbarth ysgol Brynrefail wedi cyrraedd. Dysgodd plant ysgol Brynrefail bob math o bethau i ni fel dysgu dweud y rhifau, 'anifeiliaid', 'lliwiau', a dyddiau'r wythnos. Cawsom hyd yn oed ddysgu can

Bu bob dosbarth drwy'r ysgol yn dysgu am wledydd Ewrop, eu traddodiadau, ieithoedd a'u lleoliad drwy edrych ar atlas, blasu rhai bwydydd, a dysgu ychydig eiriau o nifer o ieithoedd.

Cafwyd blas Ewropeaidd ar ginio'r ysgol y diwrnod hwnnw hyd yn oed gan i Anti Eiriona a'r staff baratoi pryd o spaghetti i ginio.

Hoffai Mrs Guillemmin a'r staff ddiolch yn gynnes iawn i'r plant a'u rhieni am fynd i gymaint o drafferth i wneud y diwrnod yn un buddiol, hapus a hwyliog iawn.



amdan dyddiau'r wythnos Roedd o'n gret.

Ar ôl yr hwyl a'r sbri yna cawsom blasu bwyd sydd yn dod o Ewrop, gwledydd fel yr Alban, Ffrainc, Sbaen. Ges i flasau Salami o'r Almaen. Roedd yn flasus iawn.

Roedd y diwrnod wedi dod i ben cawsom ddigon o hwyl yn yr ysgol. Dwi yn gobeithio cawn ni ddiwrnod Ewrop eto y flwyddyn nesaf.

*Danielle Cavanagh
Blwyddyn 5*





Pan gyrhaeddais yr ysgol roedd yr iard yn llawn o blant o bob gwlad. Roedd llawer wedi gwneud ymdrech i wneud eu gwisgoedd. Roedd bob gwisg wedi dod o Ewrop. Daeth plant ein dosbarth ni o nifer o wledydd Ewrop - roeddwn i ac Ella wedi dod o'r Alban roedd Siôn, Aled, Siian, Mari Wyn a Sioned wedi dod o Gymru. Enfys o Sweden, Robin o'r Eidal, Gari, Dafydd, Darren, Charlotte, Ffion ac Angharad wedi dod o Ffrainc a Danielle wedi dod o Sbaen. Roedd gweddill yr ysgol wedi dod o nifer o wledydd eraill.

Yn y neuadd dywedodd Mrs Guillemmin wrth pawb am sefyll fyny fel y galwai enw'r wlad. Siaradai hi Ffraneg hefo y rhai o Ffrainc. Roedd Hefin Owen wedi gwisgo i fyny fel Super Mario o Sbaen.

Roedd disgyblion o chweched dosbarth Ysgol Brynrefail wedi dod i ddysgu enwau anifeiliaid, rhifau, teimladau, dyddiau'r wythnos, lliwiau a 'beth ydych enw chi?' mewn Ffrangeg i blant Blwyddyn 5 a 6.

Buom yn blasu bwyd o wledydd eraill sef Danish



Glesni a Lowri
ydym ni. Rydym ni yn
dod o Spaen
heddiw. Rydym ni wedi
gwisgo
ffrogiau llaes
coch a du, a
siol. Rydym ni yn hoffi
dawnsio.

Pastry, Salami o'r Almaen a dau fath o gaws, Edam o'r Iseldiroedd a chaws o Iwerddon. Gwnaethom daflenni gwaith am y gwledydd hefo'r bwyd sef enw prif dref y wlad, sut dywydd sydd yno a pa fath o dir sy'n y wlad. Roeddem yn ymchwilio am enw iaith y wlad ac neu rhywbeth diddorol am y wlad.

Astudiais i yr Almaen a dewisais y cerflun Herman a'r Afon Rhein. Edrychodd llawer o blant yn astudio gwledydd gwahanol fel Groeg.

A'r ddiwedd y dydd mi heliais fy mhac ac cherdded adref; roedd pawb yn chwerthin wrth i fi basio oherwydd roeddwn wedi gwisgo mor wirion.

*Cai Jones
Blwyddyn 5*

Dydd Mercher cafodd ysgol Bethel ddiwrnod Ewropeaidd. Roedd pawb wedi gwisgo gwisg traddodiadol y wlad honno. Roeddwn wedi gwisgo fel rhywun o Ffrainc hefo Ffion, Angharad, Dafydd, Gari a Darren. Daeth Siôn, Mari, Sioncd, Aled, Siian o Gymru. Roedd Ellen, Danielle, Mari a Stephanie yn dod o Spaen. Ella ac Cai oedd yn dod o'r Alban. Roedd Enfys yn dod o Sweden ac roedd Robin yn dod o'r Eidal.

Yn y bore roedd yna 10 o blant Brynrefail yn dod i ddysgu dipyn o Ffraneg. Dysgais rhifau o 1-10, rhai o'r anifeiliaid, y lliwiau, eich teimladau a dyddiau'r wythnos sef Lundi, Mardi, Mercredi, Jeudi, Vendredi, Samedi, Dimanche.

Ar ôl cinio roeddwn wedi gwneud gwaith mapiau a blasu bwyd (mmm) Cawsom gaws Edam, caws o'r Iwerddon, Salami o'r Almaen a dipyn o Danish Pastry.

Roedd heddiw yn hwyl. Rydw i'n falch i mi wneud ymdrech.

*Charlotte Pritchard
Bl. 5*

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCHIADAU. Dymuna Aled a Llinos Jones, Fachell, Llanddeiniolen ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, anrhegion, galwadau ffôn a dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch, Elan Haf.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd noson gynta'r tymor yn Festri Cysegr, nos Fawrth, Hydref 16. Croesawyd aelodau hen a newydd gan y llywydd, sef y Parch Gwynfor Williams. Cafwyd noson o ganu a storïau difyr yng nghwmni Neville Hughes. Diolchwyd yn swyddogol gan Mr Goronwy Jones.

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen ar nos Fercher, Hydref 12 yn neuadd yr ysgol Gynradd. Croesawodd y llywydd, Mair Read, yr aelodau cyn mynd ymlaen i drafod materion rhanbarthol a chenedlaethol. Cydymdeimlwyd â Lis Watkins a'i chwiriwyd ar eu profedigaeth o gollio mam. Llongyfarchwyd disgyblion Bethel ar gael eu penodi i swyddi pwysig yn Ysgol Brynrefail.

Y gŵr gwadd oedd y Prifardd Ieuan Wyn. Cafwyd sgwrs hynod o ddifyr ganddo ar 'Dywysogesau olaf Cymru'. Diolchwyd iddo gan Deilwen Hughes. Darparwyd y te gan Nan Rowlands a Delyth Williams ac enillwyd y raffl gan Delyth.

Mis nesaf byddwn yn ymweld ag Antur Waunfawr. Pawb i gyfarfod yn yr Antur am 7.30 o'r gloch. Pris y te Nadoligaidd yw £2. Os oes unrhyw un yn cael anhawster teithio i Waunfawr cysylltwch â Mair neu Rhian.

CLWB BRO BETHEL. Ar Hydref 2 cyfarfu Clwb Bro Bethel yn Festri Bethel dan lywyddiaeth y Parchedig Gwynfor Williams. Y gŵr gwadd oedd y Prifardd Selwyn Griffith a chafwyd pnawn diddorol iawn yn ei gwmni yn sôn am gymeriadau yr ardal a'r Eisteddfod Genedlaethol. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mr Siencyn Griffith. Cafwyd paned o de wedi ei pharatoi gan Mrs Nerys Owen a Mrs Alice Jones. Diolchodd yr ysgrifenyddes Mrs Nerys Owen, i Mrs M Griffith, Mrs B Ellis a Mrs M Hughes am eu gwasanaeth i'r clwb dros y blynnyddoedd. Diolchodd hefyd i Mr a Mrs Johnson, Y Bedol am y rhodd o bryd o fwyd ardderchog i'r Clwb ar ddiwedd y tymor diwethaf.

DIOLCHGARWCH. Dydd Sul, 21 Hydref a nos Lun, 22 Hydref cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch yng Nghapel y Cysegr. Yn y gwasanaeth fore Sul ymunodd nifer fawr o'r aelodau yng Ngwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul tra ar y nos Lun cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi. Diolchgarwch traddodiadol.

Roedd casgliad rhydd y ddau

gyfarfod o dros £100 yn mynd i Gymorth Cristnogol tuag at yr ymgyrch i leddfu'r trueiniaid sy'n ffoadurion yn Affganistan.

CYDYMDEIMLO. Foer Sadwrn, 20 Hydref syfrdanwyd yr ardal wrth glywed am farwolaeth sydyn Raphael Ginzberg, mab-Mr a Mrs Ginzberg. Estynnir pob cydymdeimlad ag Allan, Joan a'r teulu yn eu profedigaeth.

NEWYDDION O'R YSGOL. Diwedd y tymor diwethaf rhaid oedd ffarwelio â Mrs Helen Sutherland wedi 32 mlynedd o wasanaeth i genedlaethau o blant Bethel. Ffarweliodd y plant â Mrs Sutherland mewn parti hwyliog yn neuadd yr ysgol. Ffarweliodd y staff, rhieni a chyn-ddisgyblion â hi yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd. Roedd presenoldeb cymaint yn Meifod yn tystio'n glir cymaint yw parch pawb a'r gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth dros gymaint o flynyddoedd.

Anrhegwyd Mrs Ceris Williams hefyd a ymddeolodd wedi nifer fawr o flynyddoedd yn gweithio yn y gegin. Bydd colled ar ei hôl hithau hefyd.

Ddechrau'r tymor yma croesawyd tri aelod newydd ar staff yr ysgol - Mrs Helen Williams yn y dosbarth meithrin, Mr Tony Bates at Flwyddyn 6 a Mrs Sian Griffiths yn rhan-amser at Flwyddyn 4. Rwy'n siŵr yr ymgartrefant yn sydyn yn yr ysgol.

Bu Blwyddyn 6 yn aros yng Ngwersyll Glan Llyn, y Bala am wythnos o weithgareddau yn

ystod mis Medi gyda Mrs Guellmin a Mr Bates yn edrych ar eu holau. Daeth pawb yn ôl yn saff ond blinedig iawn.

Cawsom wasanaeth Diolchgarwch arbennig iawn yng nghwmni rhai o blant Ysgol Pendalar a'u hathro, Mr Ieuan Roberts. Cawsom wrando ar eitemau gan y plant a chyfle i gyd ganu emynau diolch gyda'n gilydd. Aeth casgliad y plant i Ysgol Pendalar.


CYDYMDEIMLWN â Liz Watkin, Y Bwthyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Rhian Watkin, Dolgellau, yn ddiweddar. Roedd Mrs Watkin yn weithgar iawn mewn nifer o fudiadau yn Nolgellau a bydd bwlch mawr ar ei hôl ar ei haelwyd ac yn ei chymuned.

Neuadd Goffa

Hoffwn eich gwahodd i gyfarfod agored yn y neuadd am 7 nos Fawrth, 20 Tachwedd i drafod anghenion yr holl bentref.

Huw P. Jones
Cynghorydd/Councillor

Cefnogwch ein Hysbysebwy



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau,
bedydd, pen-blwydd a phob
achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant -
disgo a.y.y.b.
Bwrdd Pŵl ar gael
Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.

Alwyn a Sarah Jones
BLŌDAU

RACCA
PENISARWAUN


Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod

870605



Danfôn 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro

**Gwesty
Dolbadarn**

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

DYMUNA teulu'r diweddar lolo Huws-Roberts, Bodrida ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli un annwyl iawn.

Diolch hefyd am y swm sylweddol a dderbyniwyd er cof amdano tuag at Feddygfa Waunfawr a fu'n eithriadol yn eu gofal ohono dros amser maith.

Y CLWB 300. Dyma restr yr enillwyr am fis Medi: £40: Mrs Laura Williams, Tros y Gors; £25: Mr Rol Williams, Ardwyn; £10: Mrs Heulwen Huws, Argoed.

Mis Hydref: £40: Mr W.M. Catt, Awel y Môr; £25: Mrs R. Owen, Bryn Môr; £10: Mr K. Latham, Haul a Gwynt.

CLWB BOWLIO. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Clwb ar Fedi 25 gyda Emyr Evans yn y gadair. Croesawodd Emyr John Turner i'r cyfarfod ar ôl triniaeth lawfeddygol ar ei galon. Ailetholwyd Catherine Jones fel Ysgrifennydd ac Emyr Evans yn Gadeirydd. Cynigiodd Howie Edwards bleidlais o ddiolch i'r Swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn yma gyda Emyr yn Gapten a Dafydd Price yn Is-gapten. Bwriedir trefnu gemau cyfeillgar gyda chlybiau eraill o'r ardaloedd cyfagos yn ystod y tymor gyda Fred Buckley yn Gapten ac Anne V. Williams yn Ysgrifennydd i'r gemau yma.

Er mwyn ceisio creu diddordeb i gael aelodau newydd bwriedir cynnal 'Diwrnod Agored' yn y dyfodol agos, pryd y bydd cyfle i unrhyw un sydd â diddordeb ddod a chael gwybodaeth ar sut i fowlio. Edrychwn ymlaen at eich gweld. Mae'r Clwb yn cyfarfod bob pŵn Mawrth a lau am 2 o'r gloch ac ar nos Fawrth am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Catherine A. Jones, Bryn Gwenallt, Waunfawr (650242).

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun brynhawn lau, Hydref 4, gyda Mrs Mair W. Williams yn y gadair. Darllenwyd y Llythyr Misol a nodwyd y materion o bwys. Ar fyr rybudd, oherwydd fod y siaradwr gwadd yn methu dod, cafwyd prynhawn diddorol

iawn gyda Mr Gwilym Williams yn dangos sleidiau o lefydd o ddiddordeb yng Nghymru a'r Alban. Diolchwyd iddo gan Mrs Pat Parry. Enillwyd y raffl, wedi ei rhoi gan Mrs Peggy Jones, gan Mrs Maureen Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 1, pryd y cynhelir y Cyfarfod Blynyddol.

CAMGYMERIAD

Yn rhifyn Medi ni roddwyd y teitl i deyrnged lolo a Brian. Dylai fod wedi ei ysgrifennu fel:

'Teyrnged i Mr lolo Huws-Roberts a Mr Brian Parri' gan Llion Iwan. Ymddiheurwn am hyn. (gol.)

LLONGYFARCHIADAU.

PRIODAS. Pob dymuniad da i Suzanne a Liam ar eu priodas. Maent wedi ymgartrefu yn Is-Eilian.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Bessie Coles, Bryn Rhian ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed.

Dathlu cyrraedd ei un ar hugain y bu Sian Jones, Ty'n Twll a Derfel Parry, Bron Llywelyn. Dymunwn pob bendith a hapusrwydd i chi i'r dyfodol.

Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng ngwasanaethau'r Diolchgarwch. Diolch iddynt am wneud eu gwaith mor dda.

GWELLHAD. Croeso i Aled Taylor, Baladeulyn adref o'r ysbyty, lle bu'n derbyn llawdriniaeth. Gobeithio y byddi'n gwella'n ddyddiol Aled.

Da clywed fod Cadi Jones, Nant yn gwella wedi iddi gael helynt i'w choes yn ystod gwyliau'r haf.

Anfonwn ein cofion at Rhian Jones, Stad Tref Eilian sydd yn yr ysbyty ym Mangor. Edrychwn ymlaen at gael ei chroesawu adref pan fydd wedi cryfhau.

EISTEDDFOD Y PENTREF. Cofiwch am yr Eisteddfod yn y Ganolfan dydd Sadwrn, Tachwedd 17. Cynhelir eisteddfod y plant yn y prynhawn ac eisteddfod y timau gyda'r nos. Y beirniaid yw: Cerdd - Sian Wheway; Llefaru - Carys Huw. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan gyda'r nos, cysylltwch gyda'r capteiniaid:

Tîm y Post: John Gwynedd (650587); Tîm Croesywaun: Doug

Jones (650363).neu unrhyw un o'r pwyllgor.

Mae'r rhestr testunau ar gael yn y ddwy siop leol ac fe fydd y llinell goll ar gael ar y noson. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Gwenda Griffith (650347) neu Heulwen Jones (650388).

DIOLCH. Hoffai Shirley, Ieuan, Dafydd a theulu'r diweddar Brian Parry, 8 Pant y Waun ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth drist. Diolch am y gofal gan Feddygfa Waunfawr ac hefyd gan Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn arbennig am y rhoddion hael a dderbyniwyd gan bawb tuag at Ward Alaw a Chlwb Pêl-droed Ieuenctid Waunfawr.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Lun, Hydref 8 yn y Ganolfan a daeth cynulliad gref ynghyd i fwynhau noson tra derbyniol yng nghwmni Parti Clychau'r Grug o dan arweiniad Glenys Griffith. Llywydd y noson oedd Meira Turner a thalwyd y diolchiadau gan Catherine Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Tachwedd 19 (sylwer ar y newid yn y dyddiad) pryd y ceir darlith ar 'Y Parchedig John Roberts, Llanfwrog' gan ei gyfaill, y Parchedig Trefor Jones. Mae canmoliaeth fawr i'r ddarlith hon a gobeithir y bydd eto gynulliad niferus yn y Ganolfan i glywed am y gŵr unigryw a dawnus fu'n weinidog Capel Moriah, Caernarfon am gyfnod. Llywyddir gan Gwilym O. Williams.



CARPEDI GERAIN T OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONI WCH UNRHYW AM SER:

WAUNFAWR (01286) 650552



YN YR ARDD!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

Cofio am ffrind yn cario'r Groes Hughie William (Hugh) Tate 1929-2001



Prynhawn dydd Mercher, 5 Medi, a minnau yn teithio yn ardal amaethyddol East Anglia, fe gyrhaeddais i Gadeirlan Norwich. Yno, oddi mewn i'w muriau tawel a thua'r un adeg yr oeddwn yn tybio bod gwasanaeth angladd Hugh Tate yn mynd rhagddo yn Llandinorwig, mi gynheuais gannwyll i gofio am y cyfaill mwyn hwy a fu'n gwasanaethu ei Arglwydd yn dawel a diwyd am flynyddoedd lawer.

Brodor o Ros Isa, ger Rhostryfan oedd Hugh ac, yn wahanol iawn i'r gyfoedion yn ardal Deiniolen, lle roedd wedi symud i fyw, priodi a chodi teulu, nid yn y chwarel lechi y treuliodd ei fywyd gwaith, yn hytrach, gyrfa yn y byd amaethyddol a gafodd am y rhan fwyaf o'i oes, yn was fferm ar sawl un o ffermydd ym mhlwyfi Deoniaeth Arfon. Bu hefyd yn gweithio hefo'r Bwrdd Dŵr a, chyn ymddeol, ef a ofalai am yr orsaf ddŵr uwchben pentref Deiniolen a phurdeb y dŵr a lifai trwyddi o gronfa Marchlyn Bach i ddiwallu anghenion teuluoedd yn y pentref.

Bu Hugh Tate yn was ffyddlon iawn i Eglwys Crist Llandinorwig. Bu'n

gwasanaethu'r eglwys honno ar wahanol adegau fel athro Ysgol Sul ac Ysgrifennydd Ariannol, ac ef oedd ei Phrif Ystlyswr. Yr oedd bob amser hefyd wrth law i wneud y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar adeilad Eglwys Crist. Yn ystod fy nghyfnod i fel Clerig Mewn Gofal o Blwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun bu'n hynod o gefnogol i mi, gan wneud hynny yn ei ffordd diymhongar ei hun.

Cofiaf yn dda fel y byddai yn cerdded gyda mi ar bob taith gerdded yr oeddwn yn ei threfnu, yn enwedig y daith honno a wnaeth rhai ohonom rhyw chwe blynedd yn ôl bellach, o Ddeiniolen dros y mynydd a draw at ein gefaill-blwyf yn Abergwyngregyn, a Hugh yn mynnu cael cario'r Groes. Dyma un a fyddai bob tro yn barod i gerdded y filltir ychwanegol, ac o gael rhywun felly ymhlith ei haelodau, y mae unrhyw eglays yn gallu camu ymlaen yn hyderus.

Yn y gwasanaeth angladd dan ofal y DSeon Gwlad, Y Parchedig Philip Hughes, Llanberis, dyfynodd y Parchedig Gannon Glyndwr Williams, a brofodd gwmni a chefnogaeth Hugh Tate yn ystod ei weinidogaeth yntau yn

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

LLONGYFARCHIADAU I Rob a Renee Pritchard ar enedigaeth eu plentyn cyntaf – merch o'r enw Jessica Reid; ac i Pete ac Amanda Welsby, 1 Glanrafon, ar gael merch fach – Erin Paige, chwaer fach i David, Stephanie a Nicholas.

PEN-BLWYDD Hapus i John Ellis, 5 Nant Ffynnon, ar gyrraedd oedran arbennig – 30 ar y 15fed o Dachwedd! Pob hwyl ar y dathlu! YMDDEOLIAD HAPUS I Tommy Ellis, 5 Nant Ffynnon, wedi treulio dros ddeugain mlynedd yn gweithio i gwmni Rheilffordd Yr Wyddfa. Traed i fyny rwan ac ymlacio!

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol Eglwys Sant Peris, nos Lun, Hydref 22ain. Cafwyd llond powlen o lobsgows yn Ty'n Llan wedi'r gwasanaeth – diolch i Anne am y croeso.

DYMUNIADAU GORAU I Mrs Nancy Closs, Tan Bryn, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Gobeithio y cewch wellhad buan.

LLONGYFARCHIADAU I Mrs Prydwen Pritchard, Llys Awel, ar ennill cystadleuaeth ar y rhaglen

deledu Heno – wythnos o wyliau yn Ninbych Y Pysgod. Mwynhewch!

CARNIFAL Wedi cyfarfod diweddar o bwyllgor y carnifal penderfynwyd rhannu'r elw rhwng Aêl Charlotte Speddy a Plas Pen Gwaith. Cynhelir parti Nadolig y pentref ar y 7fed o Ragfyr yn Ty'n Llan. Datganwyd y byddai angen gwybod faint yn union fydd yn dod i'r parti ymlaen llaw y tro hwn – felly a fyddai pawb yn ateb eu gwahoddiad cyn Tachwedd yr 20fed os gwelwch yn dda? Diolch! TY'N LLAN: Trefnir noson o adloniant ysgafn yng nghwmni arlunydd platiau a chynllunydd cardiau Nadolig yn y dafarn ar nos lau y 1af o Dachwedd. Bwriad y noson yw codi pres at Gymdeithas y Plant a bydd cyfle i bawb roi cynnig ar greu cardiau a pheintio plât. Pris y tocyn yw £3 a gellir eu prynu gan Anne Cumberton neu o Swyddfa Post Llanberis.

PIANO Llongyfarchiadau i Sara Elisabeth, Bryn Gelli, Gelli Hirbant, am basio ei harholiad Gradd 1 piano.

Llandinorwig, eiriau perthnasol iawn o'r salm fuddugol ym Mhrifwyl Sir Ddinbych a'r Cyffiniau eleni, sy'n sôn am weithwyr tawel Duw a dyma finnau yn gwneud yn yr un modd:

Creaist weithwyr tawel i gadw drws dy Dŷ ar agor; cerddant trwyddo o Sul i Sul: gwrandawant a myfyriant, a rhoddant dy gannwyll mewn canhwylbren, gan oleu'r ffordd i'th Deyrnas di i eraill:

Eu Sul a barha am wythnos.

Un felly oedd Hugh Tate. Huned ei enaid hoff mewn hedd.

Bydd bwllch mawr ar ei ôl yn Eglwys Crist ac, wrth gydymdeimlo yn fawr â'r aelodau yno, aiff ein cydymdeimlad llwyrfa hefyd at Gracie, ei briod, ac at Gareth a Sylvia, ei blant a'r teulu i gyd yn eu colled enfawr.

Tegid Roberts
Cadeirlan Bangor

Cymdeithas Y Plant (The Children's Society)

Ymwelwyr annibynnol

Oes gennych ddiddordeb mewn gwneud gwaith gwirfoddol gyda phlant a phobl ifanc? Mae Cymdeithas y Plant yn chwilio am wirfoddolwyr dwyieithog i weithio fel Ymwelwyr Annibynnol gyda plant a pobl ifanc mewn gofal yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Byddwn yn cynnwys asesiad gofalus ac hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster, goruchwyliaeth a chefnogaeth.

Oes oes gennych ddiddordeb:

Cysylltwch a ni yma ar **0800 085 2274**



GORSAF BETROL

BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cymorth Ariannol i Fudiadau o Fewn y Gymuned

Gwahoddir ccisiadau ysgrifenedig gan fudiadau a chymdeithasau o fewn Cymuned Llanberis am gymorth ariannol.

Rhaid i bob cais, gan gynnwys yr adroddiad ariannol diweddaraf, gael ei gyflwyno i'r Clerc erbyn **dydd Gwener, 30 Tachwedd 2001.**

Ni dderbynnir unrhyw gais wedi'r dyddiad hwnnw. Bydd y ccisiadau'n cael eu hystyried yn ystod cyfarfod mis Rhagfyr o'r Cyngor.

Anfoner at Dafydd Whiteside Thomas,
Clerc Cyngor Cymuned Llanberis, 'Bron y Nant', Llanrug,
Caernarfon, Gwynedd LL55 4BA.

Newyddion Ysgol Brynrefail

Ein Prif Ddisgybl



Huw Evans (dirprwy); Owain Siôn Williams (prif fachgen); Erin Eifion (prif eneth); Alaw Jones (dirprwy) a Iolo Ellis (dirprwy).

Casglu i Gael Llyfrau



Unwaith eto rhaid diolch i'r plant a rhieni'r ardal am fynd ati yn frwd i gasglu'r tocynnau Walkers Crisps/The Sun Free Books for Schools.

Roedd y cyfanswm yn uch o

lawer na'r ddwy flynedd ddiwethaf ac fe gafwyd nifer fawr o lyfrau darllen a rhai ffeithiol ar gyfer y llyfrgell yn ogystal â set gyfan o eiriaduron.

Diolch o galon unwaith eto.

Sgwad Sgwennu



Ers 1998 mac scsiynau tymhorol o Sgwad Sgwennu Gwynedd wedi cael eu cynnal efo gwahanol feirdd ac awduron Cymraeg a Saesneg, pobl megis Twm Morys, Iwan Llwyd, Margiad Evans, Malachy Doyle a Barry Simner (awdur y gyfres deledu *The Bill*). Y sesiwn

ddiweddaraf oedd ar 29 Medi gyda Mr Alan Gibbons, awdur *Shadow of the Minotaur* a *The Tunnel*.

Mae 17 o aelodau yn y sgwad ac rwyf i yn un ohonynt. Mae'r sesiynau yn cychwyn am ddeg y bore yng Nghanolfan Glaslyn ym Mhorthmadog ac yn gorffen am hanner awr wedi dau ar ôl ysgrifennu stori neu ddarn o farddoniaeth yng nghwmni'r awdur. Ar ddiwedd y sesiwn rydym yn cael 'Gwaith Cartref' i'w wneud ac yn ei yrru i'r awdur/bardd dan sylw er mwyn iddo ei farcio a'i yrru'n ôl i ni gyda sylwadau ar sut i'w wella. Ym mhob sesiwn mac Miss Bethan Gwanas, sydd wedi sgwennu'r gyfres *Amdani* yn ymuno â ni i'n helpu. Hi ydy trefnydd y Sgwad Sgwennu.

Rayleigh Louise Jones SS

Blwyddyn Ieithoedd Ewropeaidd



Mae pawb yn y byd yn siarad rhyw iaith ac mae Blwyddyn Ieithoedd Ewropeaidd yn cael ei chynnal i ddathlu a dysgu ieithoedd Ewrop. Pedwar deg pump o wledydd sydd yn cymeryd rhan, o Wlad yr Iâ i Malta, ac o Bortiwgal i Azerbaijan!

Pwrpas y flwyddyn yw agor ein meddyliau i ddiwylliannau newydd, mewn byd sy'n lleihau drwy dechnoleg, ac agorwyd drysau i heddych rhwyngwladol gyda chyfrwng ieithoedd gwahanol.

Er mwyn dathlu'r flwyddyn arbennig yma cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn yr ysgol.

Cafwyd gwasanaeth boreol mewn chwe iaith, Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Sbaeneg,

Eidaleg ac Almaeneg gan flynyddoedd 11 ac 13.

Cynhaliwyd cwis ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 lle gofynnwyd iddynt roi'r iaith gyda'r wlad gywir. Enillwyd y gystadleuaeth yma gan Megan Jones a Jess Silvester o flwyddyn 9. Da iawn hwy am gael marciau llawn.

Aeth disgyblion blwyddyn deuddeg i Ysgol Gynradd Bethel i roi blas i ddisgyblion Bl. 5 a 6 o Ffrangeg. Mewn grwpiau dysgodd y plant frawddegau syml, enwau anifeiliaid, rhifau, lliwiau a chan am ddyddiau'r wythnos.

Profiad ardderchog i'r plant a disgyblion Brynrefail yn wir.

Karen Leadbitter
Blwyddyn 12

Tocyns Tesco



Un o ddisgyblion y chweched dosbarth yn syrffio'r we gyda disgyblion blwyddyn 8 yn atwyddus i weld beth sy'n mynd ymlaen.

Casglwyd dros 19,000 o'r tocyns a mawr yw ein diolch i'r gymuned am cin cefnogi unwaith eto yn y fenter. Mae'n rhaid bod y teuluoedd a'r ffrindiau wedi siopa a phrynu petrol yn frwd iawn yn ystod yr ymgyrch.

Wrth gwrw, ar ddiwedd yr hcl roedd rhaid cyfrif, a diolch yn

fawr iawn i'n llyfrgellydd, Mrs June Owen, am wneud hyn.

Cafwyd cyfrifiadur RM Work station ac Argraffydd Brother HL1240 i'r llyfrgell, lle mae ar gael i'r holl ddisgyblion. Yn ogystal ac amser gwersi mac'r ganolfan a'r offer ar gael i'r disgyblion yn eu hamser cinio hefyd.

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd - 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a ghadw o bob math

Gysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

Rhaglen Uned 5



Yn ddiweddar bu tri disgybl o flwyddyn saith yng Nghaernarfon yn cael eu ffilmio ar gyfer y rhaglen a dyma beth oedd ganddynt i'w ddweud:

Mae Uned 5 yn rhaglen sydd ar S4C bob dydd Mawrth a dydd Iau a chefais gyfle i gymeryd rhan yn y rhaglen. Disgwyliais am gar i ddod i fy nôl o'r ysgol bum munud wedi un.

Cefais ymarfer cyn mynd yn fyw am bump o'r gloch. Roeddwn yn ateb cwestiynau am y llyfr *The Poet's House*. Roedd Jen, Ffion, Elliw a Gwion o *Amdani* yno hefyd. Cefais lawer o hwyl ac yna daeth yn bump o'r gloch. Roeddwn yn fyw ar y teledu! Roedd llawer o redeg rownd yn mynd ymlaen yn ystod y rhaglen.

Cefais docyn £20 a chefais gerdyn post a llun Lowri, Catrin a Bedwyr arno. Aeth y car a fi adref am chwech a dywedais yr hanes wrth Mam a Dad.

Sasha Ellen Fraser Williams

Daeth car i'n nôl ni am un o'r gloch i fynd â ni i stiwdio ffilmio Uned 5. Wedi cyrraedd yno gwelsom Twm y ci a holl griw Uned 5. Wedi estyn ein llyfrau bûm yn eistedd mewn ystafell am amser hir, ac yn ein tro cawsom fynd i ymarfer. Yn gyntaf cawsom fynd a Twm y ci am dro o gwmpas Uned 5 ac roedd yn tynnu yn Dcwi

ofnadwy. Yna cael diod, creision a siocled a chael cyfle olaf i fynd i'r toiled! Yna roedd yn amser i fynd ymlaen yn fyw. Pan ddaeth fy nghyfle i roeddwyn yn ofnus iawn ond unwaith y dechreuais siarad roeddwyn yn iawn. Wedi i'r rhaglen orffen, fel arwydd o ddiolch gan Uned 5, cawsom ugain punt o 'vouchers'.

Yna ein cludo yn ôl i'r ysgol ac am adre. Diwrnod cyffrous ond fe wnes ei fwynhau yn fawr

Ffion Eleri Jones 7N

Bwyta fy nghinio ar frys er mwyn bod yn barod i fynd i'r stiwdio! Cyrraedd, cyfarfod â Twm y ci a gwirioni'n lân hefo fo!

Cyfarfod Heledd Lewis, yr ymchwilydd, a chae gwybod ganddi beth fydd yn digwydd.

Catrin Mai, cyflwynydd Uned 5 oedd yn fy holi ac fe aeth pethau yn iawn er fy mod yn nerfus ofnadwy. Peth eithaf rhyfedd oedd y meicryffon bach ond fe anghofiais ei fod yno pan ddechreuodd yr holi. 'Pwy oedd yr awdur a pha lyfr wyt ti am sôn amdano?' Atebais, 'Llinyn Trôns' ond o! roeddwn wedi anghofio'r awdur, ond yn lwcus fe ddangoswyd y llyfr, felly roedd popeth yn iawn!

Roedd wedi bod yn ddiwrnod da ond am ddiwrnod blinedig!

Dewi Meirion Jones

Blwyddyn 7

Criw Daearyddiaeth



Bu criw o ddisgyblion yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadlaethau Her Peiranneg Sifil Ymarch Cyflym ym Mangor yn ddiweddar. Roeddynt yn ymchwilio i effaith cwmynioedd yn y bore,

ac yn gweithio allan sut i gael dŵr glân i bentref oedd wedi dioddef yn y prynhawn. Diwrnod prysur i Laura, Elen, Huw, David, Lliffon, Martin a Llion. Da iawn chi.

CHWARAEON

(parhad o'r dudalen gefn)

drwy ennill 3-0. Enillodd y tîm -14 o 6-0 yn erbyn y Cofis ond colli 3-0 fu hanes y tîm -16.

Yng Nghwpan Ken Phelps - 18 enillodd Brynrefs o 4-3 ar ôl amser ychwanegol yn erbyn yr Howgets o Ddyffryn Ogwen. Yn yr ail Gwpan i'r oedran hyn - yr enwog Ivor Tuck - collwyd 5-0 yn erbyn Coleg Menai. Dyffryn Nantlle oedd yr ymwelwyr yng nghystadlaethau -12 ac -15. Enillwyd y ddwy gêm: -12 o 6-0 a -15 o 4-3. Rydym wedi cronicleo gorchestion y tîm -12 o'r blaen. Tybed a fydd hon yn flwyddyn lwyddiannus unwaith eto.

Yn anffodus ffarwelio â Chwpan Cymru yn y rownd

gyntaf wnaeth y tîm rygbi hyn. Cafwyd chwip o gêm yn Amlwch gyda digon o symud y bêl. Amlwch a orfu o 35-26, gyda pwyntiau allweddol y tîm cartref yn dod yn hwyr yn y gêm.

Mae un aelod o'r tîm yn cael cryn lwyddiant ar hyn o bryd. Mae Owain Siôn Williams - y prif ddisgybl - wedi ei ddewis i dimau rygbi Gwynedd a Gogledd Cymru. Yn ddiweddar bu'n chwarae yng Ngheredigion fel rhan o system treialon Cymru. Mae hefyd yn serenu yn amddiffyn tîm pêl-droed Bethel.

Yn aelodau o dim -15 Rygbi Eryri mae Gwion Owen ac Iwan Morris.

Hoci Blwyddyn 9



Ar Hydref 11 chwaraeodd tîm Hoci blwyddyn 9 yn erbyn Dyffryn Nantlle.

Dechreuodd y gêm yn gyffrous wrth i Ffion-Haf o dîm Ysgol Brynrefail sogrio gôl yn 30 eiliad cyntaf y gêm. Ar ôl hyn sylweddolodd Dyffryn Nantlle bod brwydr o'u blaen. Brwydrodd y ddau dîm i gael y bêl at y goliau. Daeth yr hanner amser i ben ar ôl 15 munud pan gaeth un o dîm Dyffryn Nantlle gael codwm yn ei cheg.

Dechreuodd y ddau dîm yn gryfach yn yr ail hanner gyda

amddiffynwyr Brynrefail yn chwarae'n arbennig. Safiodd Hannah y gôl-geidwad sawl gôl ac roedd yn benderfynol nad oedd am adael i neb sgorio. Crythaodd canolwyr Brynrefail ac felly unwaith eto roedd y bêl yn gefn y gôl gan Ffion-Haf, gyda gôl-geidwad Dyffryn Nantlle yn dechrau gwylltio. Roedd hi nawr yn 2-0 i Frynrefail.

Gorffennodd y gêm gyda llwyddiant i Frynrefail ac eu gêm gyntaf'r flwyddyn.

Angharad Jones

Cwmni Theatr Arad Goch

Bydd y cwmni yma yn perfformio'r ddrama 'Taflad Carreg' yn neuadd yr ysgol ar Tachwedd 13 am 7.30 yr hwyr. Tocynnau £3 i oedolion a £2 i blant. Ar gael o swyddfa'r ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Derbyniwyd sicc anrhydeddus iawn o £250 gan Gymdeithas Golff Cyn-ddisgyblion ac Athrawon Ysgol Brynrefail.

Diolch o galon iddynt ac fe gaff yr arian ei ddefnyddio at weithgareddau chwaraeon o bob math.

Wavell Roberts CIGYDD London House LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Wrth Feddwl am Ieir



Y fam yw'r iâr, a'r ceiliog yn bendifaddau yw'r tad ac yn *Ail Lyfr Idiomau Cymraeg* (1975) y mae R. E. Jones, cyn-brifathro Ysgol Dolbadarn Llanberis, yn cyfeirio at ymadrodd diddorol o eiddo'r Athro W. J. Gruffydd, Gorffwysfa, Bethel, Arfon sef *troed iâr* o le. Ystyr hyn yw man cyfyng drybeilig – hynny ydyw tamaid o le!

Y mae ieir yn eu gwir gynefin angen mwy na stamp o le! Byddant hwnt ac yma'n crafu, pigo a chwilota am bryfed i'w bwyta. Gwn am fferm yn nalgylch *Eco'r Wyddfa* ble mae'r cathod yn dyfod i'm cyfarfod ac yn fy nilyn at y tŷ. Ni fydd habwd o'r ieir yn unman, ond cyn wired â'm bod yn estyn bisgedi ciathod o'm poced, byddant yn cyrchu ataf ar ras wyllt ac yn hwffio'r titwod druain i un ochr! Cynnwys pcedi bisgedi ciathod yw bwyd blasus sy'n cynnwys calch, mwynau, olew, ffeibr a fitaminau. Gwyr yr hen iâr beth sy'n rhygnu bodd ac beth sy'n llesol.

Y mae'n rhaid bod gan blant

dynion ryw ddirgel barch at ieir oherwydd y mae wastad wedi enwi planhigion ar eu holau; enwau fel *crafanc* a *throed* yr ieir; *bysedd* a *gwlydd* yr ieir ac, yn y byd meddygol, ceir *brech ieir*.

Dywedir fod yr iâr fel y gwyddom ni amdani wedi deillio o'r hen fyd, sef o Ddyffryn Madran yn yr India, a hynny ganrifoedd ar ganrifoedd yn ôl.

Adwaenid hi bryd hynny fel yr iâr goch wyllt ac fe'i cludwyd o gyfandir Asia i Iwrop. Sôn am aderyn bendithiol yw'r iâr! Yn *Y Dysgedydd* 1860 dywedir bod gwynwy yn lliniaru'r boen a berthyn i losg tân. Nid pob iâr sy'n dodwy ychwaith!

Yn yr *Herald Cymraeg* 1876 dywedir bod iâr John Williams, (Ioan Wyn), Llanberis yn dodwy bob dydd ond ar y Sul, ond cyn gynted ag yr ymddangosodd yr hanes yn y wasg, cymerodd yr hen iâr yn ei phen i beidio dodwy ychwaneg! Ni ddwyedir beth a wnaeth Ioan Wyn ag iâr oedd yr streic! Prynu ceiliog mae'n siŵr!

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

ARWAIN YMGYRCH YR URDD. Bu lestyn Llwyd, Y Wern, yn un o'r tri actor a fu'n ail-lansio'r Urdd trwy daith o amgylch Cymru yn ystod y mis diwethaf.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Mary Albert Jones, 14 Tai Glangwna ddiolch i bawb am eu caredigrwydd adeg ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch am y cardiau, blodau a'r anrhegion ac i bawb a alwodd i'w gweld.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Hydref oedd:

£40 (17): Einir Williams, Y Wern; £25 (81): Sharon Bullock, 11 Tai Glangwna; £15 (95): Selwyn Griffith, 7 Erw Wen; £5 (78): Mary Henderson, Gorwel, Erw Wen.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn yr adeg cyn dathliadau'r Nadolig.

MAES CHWARAE NEWYDD. Ar ôl torri gwaith mae'r maes chwarae newydd yn edrych yn well byth. Y gwir dystiolaeth yw'r defnydd parhaol gan blant y fro.

CRICEDWR O FRI. Llongyfarchiadau i Tom Evison, Cae Hopcyn ar ei yrfa fel cricedwr proffesiynol. Bydd o'n dechrau gweithio ar gae criced Thomas Lord yn Llundain ym mis Mawrth.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr yn Y Ganolfan, Waunfawr nos Fawrth, 16 Hydref. Roedd y Cyng Clive James yn bresennol ac roedd ymddiheuraid gan y Cyng Vera Roberts oherwydd ymrwymiadau eraill.

Roedd cyfle i leisio problemau lleol hefo arolygydd lleol Heddlu Gogledd Cymru. Lleisiwyd pryder am geir ar y ffordd o fwyty-bwyta-allan yng Nghaernarfon yn taflu gweddillion eu prydau ar ochr y ffordd, wedyn cyflymu trwy Benrhos, Bryn y Gof a chanol y pentref cyn gor-yrnu yn ôl i Gaernarfon.

Hefyd gofynnodd am gefnogaeth y Cyngor am naill ai bafin neu lwybr ar wahân rhwng Bryn Eden a Phont Peblig. Hefyd nid oedd atebion digonol ar gael i ymateb yr Heddlu a Chyngor Gwynedd i fandaliaeth ceir ym maes parcio tafarn Bryn Gwna a diffyg gwybodaeth ynglŷn â gwarchod y maes parcio gyda'r nos, neu docio'r gor-dyfiant ar ochr Glangwna a gwella'r goleuadau stryd.

Doedd dim atebion oddi wrth Gyngor Gwynedd ynglŷn â chyflwr llwybr Glanrafon, glendid a gor-dyfiant ar ochr y briffordd rhwng Glangwna a Phont Llanbeblig a diffyg lle cerdded ar ochr y lôn rhwng Glangwna a Phont Glanwna. Nid oedd ymateb i'r gwyn ynglŷn â'r tyfiant y ddwy ochr i rif 1 Bryn y Gof.

Bu cais cynllunio am adellad amaethyddol gan Gae Phillip ond roedd y Gyngor yn cwestiynu'r angen amaethyddol. Doedd dim gwrthwynebiad i fynedfa car i Dremallt, yn amodol ar ail-ddefnyddio cerrig naturiol a pheidio creu rhagfarn mewn

perthynas â datblygu'r cae gyferbyn.

Gohiriwyd cais gan Bwyllgor Mynwent Caeathro oherwydd diffyg gwybodaeth ond cytunwyd i roi grant o £2000 i Bwyllgor y Cae Chwarae.

Bydd cyfarfod arbennig i drafod y cynigion i wella'r ffordd rhwng Plas Menai a'r Bontnewydd trwy Gaeathro. Bydd y Cyngor Cymuned yn cefnogi cais Pwyllgor y Cae Chwarae am fân welliannau i'r man chwarae newydd.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Bydd y Gwasanaethau canlynol dros y mis nesaf;

4: 11.00 Ysgol Sul;

11: 11.00 Ysgol Sul;

18: 11.00 Ysgol Sul;

14.00 Pregeth: Parch Gareth Maelor;

25: 11.00 Ysgol Sul;

2 Rhag: 11.00 Ysgol Sul,

14.00 Pregeth Mr Huw Jones.

PLYGU'R ECO. Mis Tachwedd yw cyfle trigolion Caeathro i blygu *Eco'r Wyddfa*. Eleni, ar nos Iau, 29 Tachwedd byddwn wrth ein llafur yn y Clwb Mawr, Glangwna o 5.30 y.h. ymlaen. Bydd pob llaw yn cyfrif! Croeso felly, i BAWB.

CYMRU AR RAS. Braf oedd gweld lluniau o Gae Chwarae Caeathro a theulu Bodawel (Tim a Jayne Lloyd a'u plant, Kate a Megan) cyn ac yn ystod rasio ym mynyddoedd Colorado ar gyfer y 'Solomon X Challenge' ar S4C nos Iau, 18 Hydref.

PEN-BLWYDD PRIODAS

Llongyfarchiadau mawr i Mr a Mrs Griff Jones, Tremallt ar ddathlu pen-blwydd Priodas Aur yn ddiweddar. Hefyd Mr a Mrs Bryn Griffith, Delfryn ar ddathlu pen-blwydd Priodas Ruddem.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Heulwen Atkinson a'r teulu, Garreg Lwyd, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Margaret Roberts, yn ddiweddar.

Hefyd â Mrs Dilys Griffith, Delfryn ar golli ei brawd yn frawychus o sydyn.

Hefyd â Mrs Lyne Owen, Ty'n y Goed hefyd wedi colli mab ei chwaer, Brenda Price, mewn trychineb yn Aberystwyth. Roedd John Robert Price yn byw ym Mhontllyfni.

SWPER NADOLIG. Bydd Swper Nadolig Pwyllgor y Cae Chwarae yn Nhafarn Bryngwna nos Wener, 14 Rhagfyr. Dylid cysylltu ag aelod o'r pwyllgor er mwyn ymuno â'r hwyl.

NOSON GWIN A LOBSGOWS. Codwyd £311 at gostau'r offerynnau cymunedol yn y Capel ar ei newydd wedd trwy'r Noson Gwin a Lobsgows yng Ngharrog, Rhosbach. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

FFAIR NADOLIG. Cynhelir Ffair Nadolig yn y Neuadd Gymuned nos Wener, Tachwedd 23 am 6.30 o'r gloch. Bydd amrywiol stondinau, raffl a phaned. Bydd yr elw tuag at Ginio Nadolig y Pensynwyr a gynhelir dydd Sadwrn, Rhagfyr 8 yng Ngwesty Gwydir ym Metws-y-coed.

DIOLCH. Dymuna Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryntirion ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar ac yn arbennig am y parti a'r syrpreis a gafodd ar y noson.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i bawb ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

Da deall fod Nia Porter yn gwella wedi'i thriniaeth yn yr sybyty a dymuna Nia ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Fore Sul, Medi 30 roedd hi'n Sul Katilau, y ferch ifanc o Kenya y mae Cymanfa Annibynwyr Dosbarth Cwm-y-glo yn cyfrannu at ei haddysg drwy Gymdeithas 'Action Aid'. Roedd hi'n braf gweld tair Ysgol Sul, Ebeneser Deiniolen, Tabernacl Cwm-y-glo a Bosra Penisarwaun, tua 50 o blant ac oedolion, yn ymuno am awr a hanner hapus yn canu hoff emynau, gwyllo fideo fer am hanes Duw yn creu y byd, a chael cwis ar hanesion o'r Beibl. Yng nghanol y gweithgareddau cafwyd cyfnod byr o ddarlenn distaw noddedig er budd addysg Katilau - pawb yn dawel a'u trwynau yn eu Beiblau neu lyfr crefyddol, a'r plant lleiaf yn gwrando ar stori yn y 'stafell fach'.

Gwnaed casgliad o dros £200 a diolchir i bawb am eu haelioni.

EGLWYS SANTES HELEN

GWIBDAITH I GEMAES. Dydd Sul, Medi 30 aeth rhai o'r aelodau ar wibdaith i'n hefaill-blwyf yng Nghemaes. Ar y ffordd aethom i Briordy Penmon i weld yr Eglwys a'r Abaty. Am 4 o'r gloch ymunwyd mewn gwasanaeth o'r Gosber yn Eglwys Llanfechell. Yn dilyn y gwasanaeth roedd gwledd wedi ei pharatoi gan drigolion Gemaes a Llanfechell.

Diolchwyd i'r Parch Ganon

Geraint Wyn Edwards, Mrs Edwards a'r plwyfolion gan Mr Harold Salisbury am y croeso cynnes a gawsom. Edrychir ymlaen i'w croesawu hwy yn ôl i Benisarwaun yn ystod 2002.

DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF. Dydd Sul, Hydref 21 fe gynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch. Am 10.30 o'r gloch cafwyd gweinyddiad o'r Cymun gan Gurad Llanberis. Am 4 o'r gloch fe gynhaliwyd Gosber Cymraeg gyda'r pregethwr gwadd, y Parchedig Dr. G. Lloyd Jones, Porthaethwy. Cymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan aelodau o'r Ysgol Sul ac aelodau ifanc yr Eglwys. Thema'r gwasanaeth oedd 'Diolch am ddŵr, tân, pridd ac aer'.

Diolch i athrawon yr Ysgol Sul am eu cymorth gyda'r plant.

FFAIR GYNHAEAF. Fe gynhaliwyd Ffair Gynhaef yn Neuadd yr Eglwys nos Lun, Hydref 22. Fe garai swyddogion yr Eglwys ddiolch i bawb am eu rhoddion, eu cymorth a'u cefnogaeth ac i bawb a fu'n brysur yn addurno'r Eglwys fore Sadwrn ar gyfer yr ŵyl.

DISGO'R PLANT. Fe gynhelir Disgo yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Tachwedd 30 am 6.30 o'r gloch. Mynediad 50c. Raffl, Creision, Melysion a Diodydd ar gael yn ystod y noson. Y D.J. fydd Llion Jones, Cwm-y-glo.

GWASANAETH TEULUOL. Bnawn Sul, Hydref 14 cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch i'r teulu gyda phlant ac athrawon yr Ysgol Sul yn cymryd rhan. Addurnwyd y capel gyda blodau, llysiau a ffrwythau gan y plant a diolchir iddynt, o'r lleiaf i'r oedran uwchradd, am wneud eu gwaith mor raenus a hynny ar fyr rybudd. Cafwyd anerchiad difyr gan Mr Myrddin Jones ac roedd y plant yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn ddeallus. Mae'n braf cael gwasanaeth fel hyn yn achlysurol a gobeithir cael un tebyg eto hefo Mr Myrddin Jones o gwmpas y Nadolig.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 3 i gychwyn am 1 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Bydd egwyl a

lluniaeth ysgafn ganol y prynhawn. Am fwy o fanylion a rhaglenni cysylltwch ag Elizabeth Woodcock (870121). Dymunir pob llwyddiant i'r Eisteddfod eto eleni.

LLONGYFARCHIADAU. Gydag ymddiheuriad mawr i ti, Andrea Paterson, am adael dy enw allan yn rhifyn Medi. Llongyfarchiadau mawr i ti ar ennill Gradd B. Addysg ym Mhrifysol Bangor. Gobeithio y cei fwynhad ym myd addysg a digon o hwyl hefo'r plant. Pob dymuniad da i ti yn dy yrfa. Rydym i gyd yn falch o'th lwyddiant.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mr Maurice Bethel, 8 Llys y Gwynt ar golli ei wraig annwyl, Mary. Anfonir ein cydymdeimlad at Eiriona Williams a'r teulu hefyd gan fod cysylltiad agos a difyr rhwng Mrs Bethel a theulu Eiriona. Yn 5 oed daeth yn ifaciwi ac aros am bedair blynedd a hanner hapus yn Ty'n y Waen. Roedd Mr Bethel yntau yn ifaciwi yn Llandegfan. Wedi priodi roeddent yn dod yn aml i'w carafan yn Llys hefo'u plant. Wedi ymddeol daethant i fyw i Lanberis ond yma, ym Mhenisarwaun, yr oedd ei chalon. Cafodd 18 mis hapus yn 8 Llys y Gwynt ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym Mynwent Santes Helen.

90 OED. Llongyfarchiadau mawr i Mrs Katie Williams, 8 Llys y Gwynt, gynt, ar gyrraedd ei 90 oed ar Hydref 19. Mae atgofion melys a doniol yn llifo i'r cof wrth feddwl am yr hwyl a gafwyd hefo Mrs Williams a'r criw amser Ffug Eisteddfod yr Eco, gan gipio'r Darian deirgwaith yn olynol a'r ymarferion hwyliog amser yr Eisteddfod Bentref. Dal i wenu mae Mrs Williams ac rydym yn hynod falch mai yma ym Mhenisarwaun y mae. Ymlaen rwan am y teligram gan y Frenhines ymhen deng mlynedd. Cariad mawr atoch Mrs Williams.

ADFERIAD BUAN. Ein cofion annwyl at Mrs Glenys Owen, 1 Llys y Gwynt, sydd yn yr ysbyty. Da deall fod Mrs Annie Hughes, Cae Hywel a Mrs Eluned Jones, Cae Corniog yn gwella wedi'u triniaethau hwythau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr oedd:

1. Gwen Roberts, Weirglodd Goch; 2. Myfi Jones, Gwynfi; 3. Manon Glyn, Erw Gain, Llanrug. Trefnir 'Disgo Nadolig' i'r plant ar Ragfyr 14 i gychwyn am 5.15.

Y GORAU O'R GOREUON.



Dyma Tania Wyn Jones yn ei gwsg 'Squaw' yn y Carnifal eleni. Tania enillodd y wisg orau yn y Carnifal. Llongyfarchiadau mawr i ti.

Bydd diod, creision a gwobrau da ar gael.

Yn dilyn y Disgo bydd Noson Wasael i'r plant a'r oedolion. Cenir yr hen garolau, bydd darlenniadau, eitemau gan y plant ynghyd â phwnsh poeth a mins pei. Ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf ond cadwch y dyddiad hwn yn eich dyddiadur.

PLYGU'R ECO. Dymunir diolch i'r criw ffyddlon a ddaeth i blygu rhifyn Hydref. Llauer o ddiolch i'r plant ifanc a ddaeth gan fod o gymorth mawr i'r plygwyr a'r trefnydd bwndelu, Jean Parc Jones. Gorffenwyd yn braf erbyn 7.30. Diolch i swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd unwaith yn rhagor y flwyddyn hon.

LWC DDA. Ein dymuniadau gorau i Dafydd Dafis a Manon Elis, Golygfa'r Wyddfa a briodwyd ddydd Sadwrn, Hydref 20. Dyfodol hapus i'r ddau ohonoch.

YMGYRCH PLENTYN Y NADOLIG

(Operation Christmas Child)

Anrhegion Nadolig mewn bocsus 'sgidia i blant Dwyrain Ewrop.

Cysylltwch â:

John Pritchard

Cilfynydd, Llanberis

(01286) 872390



J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)


GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259



Dyma lun rhai o blant Ysgol Sul Eglwys Crist Llandinorwig ar ôl golau canhwyllau i goffáu y trueiniaid a gollodd eu bywydau yn yr ymosodiad terfysgol yn Efrog Newydd a Washington ym mis Medi. Hefyd cafwyd gweddi dros y rhai â anafwyd a'r holl deuluoedd yr amharwyd arnynt yn y drychineb erchyll yma.

DYMUNA Heulwen, Cefn Coch ddiolch i aelodau Capel Cefnywaun ac i'r Gweinidog; i aelodau'r teulu a chyfeillion am eu caredigrwydd, rhoddion, cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau. Dymuna hefyd gydnabod yn ddiolchgar iawn y gofal arbennig a gafodd tra yn y Ward Coronari Ysbyty Gwynedd.

DYMUNA Eleri a Gareth, Bwthyn Isaf ddiolch o galon am y rhoddion, cardiau a'r dymuniadau da ar eu dyweddïad ar Fedi 17. CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor eleni, nos Lun, Hydref 1, pryd y croesawyd plwyfolion o Eglwys y Santes Fair a Santes Ann, Mynydd Llandygái. Y gŵr gwadd oedd y Parchedig Philip Hughes, Llanberis. Rhoddodd sgwrs ddiddorol ac amserol ar sut y daeth yn berchen dau ddarn o henebion.

Roedd merched y Eglwys wedi bod yn brysur yn paratoi 'Swper Cynhaeaf' blasus i bawb, a chafwyd noson i'w chofio. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Tachwedd 5 am 7 o'r gloch pryd y bydd Miss Jean P. Jones yn 'Rhannu Profiadau Patagonia'. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL GWAUN GYNFI.

Croesawyd 28 o blant bach newydd i'r dosbarth Meithrin y

tymor hwn ac maent wedi setlo i mewn yn hapus erbyn hyn.

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Ysgol ar Hydref 19. Daeth y plant â llysiau a ffrwythau a'u gosod ar fwrdd yn y neuadd. Rhoddwyd y cynnyrch i henoed y pentref.

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Llywodraethwyr ar nos Lun, Hydref 29, 2001 am 6.30pm. Croeso cynnes i'r holl rieni.

Cynhelir Cyngerdd Nadolig yr ysgol eleni ar nos Fercher, Rhagfyr 12 gyda Seindorf Ieuenctid Deiniolen.

Bydd dosbarthiadau 3 a 4, sef dosbarthiadau Mr Parry a Mrs Down yn ymweld â Chastell Penrhyn ar ddydd Llun, Rhagfyr 17 i weld sut roedd y trigolion yn treulio eu Nadolig yn yr oes Fictoriaidd, ac i wneud addurniadau a melysion ar gyfer y Nadolig.

Cynhelir Arolwg o'r ysgol gan Archwilwyr ei Mawrhydi yn ystod wythnos 19-23 Tachwedd, 2001.

Bu Dosbarthiadau 3, 4 a 5 yn ymweld ag Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy ddydd Llun a Mawrth, Hydref 8 a 9.

Casglwyd £350 tuag at elusen Dr Barnado's. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Mae pawb yn yr ysgol yn hapus dros ben oherwydd llwyddiant y

plant a'r athrawon yn ennill y Marc Safon Cenedlaethol. Y llynedd rhoddwyd blaenoriaeth i ddatblygu ysgrifennu Cymraeg a Saesneg. Yn dilyn ymroddiad yr athrawon i'r cynllun a gosod strategaethau addas, datblygodd gwaith y plant yn arbenig o dda. Gosodwyd targedau heriol a llwyddwyd i gyrraedd y targedau a rhagori arnynt.

Yn dilyn arolygu'r gwaith gan Uwch Ymghynghorydd Addysg Gwynedd ac Aelod o'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol dyfarnwyd y Marc Safon Cenedlaethol i'r ysgol. Byddwn yn awr yn cael plac, tystysgrif a fflag i ddangos bod safonau da yn yr ysgol.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Fore Sul, Medi 30 roedd hi'n Sul Katilau, y ferch ifanc o Kenya y mae Cymanfa Annibynnwyr Dosbarth Cwm-y-glo yn cyfrannu at ei haddysg drwy Gymdeithas 'Action Aid'. Roedd hi'n braf gweld tair Ysgol Sul, Ebeneser Deiniolen, Tabernacl Cwm-y-glo a Bosra Penisarwaun, tua 50 o blant

ac oedolion, yn ymuno am awr a hanner hapus a difyr yn canu hoff emynau, gwyllo fideo fer am hanes Duw yn creu y byd, a chael cwis ar hanesion o'r Beibl. Yng nghanol y gweithgareddau cafwyd cyfnod byr o ddarllen distaw noddedig er budd addysg Katilau - pawb yn dawel a'u trwynau yn eu Beiblau neu lyfr crefyddol, a'r plant lleiaf yn gwrandao ar stori yn y 'stafell fach'.

Gwnaed casgliad o dros £200 a diolchir i bawb am eu haelioni.

Y SEINDORF.

Dyddiad i'w Gofio:

Nos Fawrth, Rhagfyr 18

Cyngerdd Nadolig
Band Ieuenctid Deiniolen
yn Ysgol Gwaun Gynfi
am 7 o'r gloch.



Iona, Gari, Donna Mathew: aelodau o Glwb Ieuenctid Deiniolen yn derbyn Tystysgrif Cyfnod Cyrhaeddiad am waith neilltuol gan Mr Harri Jones.

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA

Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed

Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verrucae; Cym a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thyllino Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu

07747 696267 (symudol)



CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR

Down â fe atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

STEPHEN JONES

✦ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol

Profiadol

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

yn LLANRUG
ar gyfer eich
holl anghenion

- Trin cyrff ceir
- Gwaith Mecanyddol
- Gwasanaeth/Service
- Valleting

(01286) 870814

Annwyl Olygydd

CAPEL

Hoffwn drwy eich papur dynnu sylw eich darllenwyr at gymdeithas yng Nghymru sydd yn gweithio ers rhai blyneddoddd i geisio sicrhau dyfodol i dreftadaeth ein capeli. Enw'r gymdeithas yn ddigon syml yw CAPEL a'i hamcanion yw:

Hyrwyddo astudiaeth, cadwraeth etifeddiaeth a chadw eu hadeiladau;

Cynnig cyngor i gynulleidfaoedd ar gynnal a chadw eu hadeiladau;

Annog, cofnodi ac astudio pensaernïaeth capeli;

Annog capeli i ddiogelu eu cofnodion;

Annog addasu gofalus capeli nad oes eu hangen bellach ar gyfer eu bwriad gwreiddiol.

Mae CAPEL yn cydweithio'n agos gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru. Drwy bartneriaethau

o'r fath bydd yn bosib anelu at gofnodi capeli drwy Gymru a cheisio gwarchod ein treftadaeth Anghydfurfiol. Mae gan CAPEL rôl bwysig i chwarae i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith. Hoffech chi wybod mwy?

Drwy ymaelodi â CHAPEL buasech yn derbyn gwybodaeth am waith CAPEL a mudiadau eraill yn y maes hwn mewn cylchlythyr. Yn ogystal mae'r Gymdeithas yn cyfarfod ddwy waith y flwyddyn mewn gwahanol rannau o Gymru i ymweld â chapeli a dysgu am hanes Anghydfurfiaeth mewn gwahanol ardaloedd.

Os am ymuno cysylltwch â Ms Penny Icke, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Plasrug, Aberystwyth SY23 1NJ.

Fe fydd croeso mawr i chwi i'r gymdeithas.

Yn gywir
Ann Rhydderch

Pencampwr y Byd

Mae rhedwr sydd wedi mabwysiadu Eryri'n gartref ond yn parhau'n deyrngar i'w wlad enedigol - yr Alban - bellach yn ymfalchïo yn y ffaith iddo ddod â Phencampwriaeth y Byd yn ôl i fro'r 'Eco'. Mae Colin Donnelly wedi byw yng Ngwynedd ers nifer helaeth o flynyddoedd. Syrthiodd dan hud mynyddoedd Eryri tra'n gweithio i'r Llu Awyr yn y Fali ar Ynys Môn, ac y mae erbyn hyn yn ennill ei fara beunyddiol fel nyrs yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor. Setlodd i fyw yn Ninorwig gyda'i wraig, Alison, sydd hefyd yn rhedwraig, a'i ddau blentyn.

Mae ei lwyddiannau ers iddo ddechrau cystadlu'n llanc ifanc yn yr Alban yn ddigon i wneud i unrhyw athletwr proffesiynol genfigennu. Ei ddyfalbarhad a'i ddycnwyd yn ogystal â'i allu cynhenid sydd wedi ei alluogi i barhau ar y brig ac yntau bellach dros ei ddeugain mlwydd oed.

Daeth ei addewid i'r amlwg yn gynnar iawn yn ei yrfa pan enillodd ras Ben Nevis ac yntau'n ddim ond pedair ar bymtheg oed; y rhedwr ieuengaf erioed i ennill y ras honno. Bellach, mae wedi dod yn fuddugol ym mhob un o brif

rasus mynydd Prydain yn ystod ei yrfa, ar wahan i Ras y Tri Chopa yn Swydd Efrog. Enillodd Ras yr Wyddfa hefyd, y rhedwr cyntaf erioed o Glwb Rhedwyr Eryri i gyflawni'r gamp.

Mewn erthygl ddiweddar yng nghylchgrawn *The Fellrunner* dadansoddwyd canlyniadau clasuron rasmus mynydd Prydain dros yr ugain mlynedd diwethaf, a Colin Donnelly ddaeth i'r brig. Mae'r unig redwr i ennill Pencampwriaeth Prydain dair gwaith yn olynol, a'r llynedd, enillodd y Bencampwriaeth i ddynion dros 40 oed.

Mae wedi cynrychioli ei wlad ddegau o weithiau mewn cystadleuthau rhedeg mynydd a rhedeg traws gwlad, ac mae'n dal record arall nad yw'n debygol o gael ei thorri am flynyddoedd. Mae wedi cynrychioli'r Alban ym mhencampwriaethau rhedeg mynydd y byd ym mhob un o'r ddwy flynedd ar bymtheg ers pan sefydlwyd y gystadleuaeth. Daeth yn bumed drwy'r byd yn 1988, yn bedwerydd yn 1993 yn yr Eidal, yn ail yn Ffrainc yn 1999, ond eleni, er mai 31ain allan o gant a hanner o redwyr oedd ei safle yn yr Eidal, gwnaeth iawn am hynny drwy ennill pencampwriaeth y byd i ddynion dros 40 oed yng Ngwlad Pwyl y mis diwethaf.

Mae bellach yn edrych ymlaen am y tymor traws gwlad sy'n rhoi sylfaen cadarn iddo i baratoi ar gyfer Pencampwriaethau Prydain y flwyddyn nesaf. A'r nod? Parhau i gystadlu, ac er ei fod erbyn hyn yn cystadlu mewn dosbarth gwahanol, mae'n fwy na thebyg y bydd nifer o redwyr ifanc gorau Prydain yn parhau i wylïo'i sodlau'n diflannu o'u blaenau dros gribau'r mynyddoedd.

Cefnogwch
ein Hysbysebwy

Ar agor i dderbyn galwadau gan gwsmeriaid preswyl:
8.00 y bore i 6.00 yr hwyr Llun i Sadwrn



Ffoniwch heddiw

i gofrestru am fil ffôn Cymraeg (bil ffôn cyffredin)
ynghyd â chatalog gwybodaeth yn y Gymraeg

BT bob tro 0800 800 288
Defnyddiwch eich Cymraeg

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
(01286) 675754

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal a
Gwasanaeth Prif Ddellwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI

Gor new Fan
Patrol new Bloor
Gard, new Gwistrellid

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arddel
ac yn ymestyn oes eich car

YSTAD GIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

APÊL CYMDEITHAS PLANT MEWN ANGEN. Daeth Mrs Parry o'r gymdeithas uchod i gyfiri' arian y bu plant yr ysgol yn eu casglu, ac roedd wedi rhyfeddu. Casglwyd bron iawn i fil o bunnau yn Llanrug. Dyma'r swm mwyaf mae wedi ei dderbyn drwy' unrhyw apêl i'r gymdeithas drwy Ogledd Cymru. Dymuna, ar ran y gymdeithas, ddiolch i ddisgyblion yr ysgol am weithio mor galed ac i bawb a gyfrannodd at yr achos teilwng hwn.

Yr ymgyrch nesaf y byddwn yn ei lansio yn yr ysgol fydd casglu bocsus esgidiau ar gyfer 'Operation Christmas Child'. Teimlwn fod mwy o angen nac erioed i wneud ymdrech fawr eleni. Y dyddiad olaf i ddod a'r bocsus i'r ysgol fydd Tachwedd 15.

GWEITHDY CELF. Bu Mr Gareth Owen, Pennaeth Adran Gelf Ysgol y Creuddyn yn yr ysgol dydd Llun, Hydref 15 yn cynnal gweithdy gyda grwpiau o blant yr Adran **DERBYN RHODD.** Dymuna'r ysgol ddiolch i gwmni Londis am y rhodd o deledu a fideo a gafwyd ganddynt yn ddiweddar.

TRIDIAU YNG NGLANLLYN. Yn brydlon am hanner awr wedi naw fore Llun, Hydref 8 roedd bws yn aros o flaen yr ysgol yn barod i gludo disgyblion Bl. 5 a 6 i Wersyll Glanllyn am dridiau o waith maes. Cafwyd cyfle i fwynhau pob math o weithgareddau yn y gwrsyll a chael ymweld â Chanolfan y Dechnoleg Amgen ac Ogof Arthur yng Nghoris. Miss Jones a Mr Wyn fu'n cadw llygaid ar y plant am y tri diwrnod.

TAITH ADDYSGOL. Fel rhan o thema'r tymor bu disgyblion Bl 1 a 2 ar ymweliad â Melin Llynnon ar Ynys Môn. Daethant yn ôl gyda bagiau o flawd a bu arogl bara'n crasu drwy'r ysgol am ddiwrnod cyfan.

TAITH GERDDED. Bu plant y dosbarth Meithrin am dro heibio'r Eglwys er mwyn gweld arwyddion yr Hydref yn eu hamgylchfyd.

CHWARAEON. Prynhawn Gwener bu timau pêl-droed a phêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yn erbyn timau Ysgol yr Hendre yng Nghaernarfon. Enillodd y pêl-droedwyr ddwy gêm a'r tîm pêl-

rwyd yn ennill un gêm a cholli'r llall. Da iawn chi.

Y DDAWNS FLODAU. Bu genethod bach Bl 2, wedi eu hyfforddi gan Mrs Evans, yn perfformio'r ddawns flodau fel rhan o seremoni anrhydeddu'r llenorion yn Eisteddfod y Pentref ac yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau iddynt am wneud eu gwaith yn berffaith.

PLAID CYMRU. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn y Neuadd Goffa nos Fercher, Medi 26 a daeth cynulleidfa dda i glywed Seimon Glyn yn sôn am broblemau cefn gwlad. Pwysleisiodd bod Plaid Cymru'n cyfrannu syniad gwerthfawr ar hyn o bryd i geisio ateb y broblem. Pleser oedd cael croesawu aelodau o ganghennau Llanberis a Deiniolen i'r cyfarfod, ynghyd ag amryw o aelodau newydd, a chafwyd trafodaeth fywiog uwchben paned.

Cynhaliwyd Talwrn y Beirdd nos Fawrth, Hydref 23 yn y Sefydliad Coffa ar wahoddiad y gangen. Beirdd Llanrug a Thre-garth oedd yn cystadlu yn rhan gyntaf y rhaglen a Llanefydd a Llansannan yn yr ail ran, gyda Gerallt Lloyd Owen yn Meuryna.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghanolfan Cymuned Penisarwaun a'r siaradwr fydd Irfon Jones. Mae Irfon yn llais adnabyddus iawn ar Radio Cymru a byddwn yn siŵr o gael noson ddifyr. Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod nos Fercher, Tachwedd 21 am 7.30 o'r gloch.

CAPELY RHOS. Bore Sul, Hydref 21 cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch. Cymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul ynghyd â rhai o'r rhieni. Cafwyd cynulleidfa deilwng iawn, a'r plant yn gwneud eu rhan yn ardderchog. Diolch yn fawr i athrawon yr Ysgol Sul am eu gwaith diflino ar hyd y flwyddyn, a hefyd i Mrs Sian Wheway am ofalu am y gerddoriaeth. Diolchwyd iddynt gan ein gweinidog, y Parch Dafydd Hughes.

Nos Sul, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi o Ddiolchgarwch yn ogystal â gweddi am heddwch yn y byd. Cafwyd cynnod tawel i ganolbwyntio ar sefyllfa druenus

ein byd heddiw.

Yn ystod y ddwy oedfa casglwyd arian tuag at Apêl Affganistan. Swm y casgliad oedd £290. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael.

MERCHED Y WAWR. Aeth nifer dda o aelodau'r gangen i'r Archifdy yng Nghaernarfon nos Fawrth, 9 Hydref. Croesawodd y llywydd, Mrs Megan Roberts, bawb yno a dymunwyd adferiad iechyd buan i Mrs Cadwaladr. Cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Lynne Roberts a Beverley Owen, dwy o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail. Talwyd diolchiadau gwresog ar ran yr aelodau gan Bethanne Williams. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 13 yng nghwmni Mrs Rhiannon Roberts a fydd yn dangos sut i wneud addurniadau Nadolig. Croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

DIOLCHIAU. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi holi amdanaf tra roeddwn yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Rwy'n falch o ddweud fy mod yn dod i arfer â'r driniaeth ac yn teimlo'n dda iawn. Mae pawb wedi bod yn ffeind dros ben.

— Ifan Dafydd, Bryn Moelyn, Llanrug.
Hefyd, fe ddymuna Bryn (Pant Mwyn) a Gwenan ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ac am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a gawsant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

BORE COFFI. Hoffai Meirwen Williams ddiolch yn fawr i bawb a gymerodd ran yn y bore coffi yn Siop Spar ddydd Gwener, Hydref 26. Codwyd y swm o £185 tuag at elusen Cancr Macmillan. Enillwyd y raffl oedd Mr Pierce, Fferm Glanrafon; Brian Williams, Stad Glanffynnon; Sian Williams, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Diolch yn fawr i bawb

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Llandudno ar Fedi 9 bu farw Mr Neville Thomas, 14 Hafan Elan yn 66 mlwydd oed. Roedd yn fab i Mrs E. M. Thomas a'r diweddar O. J. Thomas (Twill Clawdd). Tad annwyl Michael a Tony; tad yng nghyfraith Jeni a Sandra; taid Nia a Gwenno; brawd Maureen, Gloria, John a Linda a'r diweddar Beryl ac Olga.

Dymuna Michael a Tony a'r teulu ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad ac hefyd am y blodau a'r rhoddion ariannol at y Seindorf, Llanrug.

Yn sydyn iawn ddydd Gwener, 26

Hydref bu farw Tony Evans, Nant y Glyn, yn 58 oed. Gŵr annwyl iawi Charlotte; tad hoffus Sarah a Claire; taid arbennig Katie a brawd yng nghyfraith Veronia. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr i'r teulu i gyd.

BRYSIWCH WELLA Margaret Chrstian, Corlan y Rhos ac Ifan (lanto) Roberts, Glanffynnon. Anfonwn ein cofion at bawb sy'n cwyno adref neu yn yr ysbyty. Brysiwch wella.

EISTEDDFOD. Dydd Sadwrn, Hydref 13 cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm-y-glo yn Ysgol Uwchradd Brynrefail. Dyma'r tro cyntaf i'r ddau bentref ddod at ei gilydd i gynnal yr eisteddfod, ac fe brofwyd yn hynod o lwyddiannus gyda mwy na 200 yn y gynulleidfa.

Daeth nifer fawr o Gwm-y-glo i gystadlu wedi eu hannog gan Mrs Mair Huws, Pennaeth Ysgol Cwm, ac fe lwyddwyd i gipio nifer uchel o wobrau, gan gynnwys *Tlws am y Perfformiad Canu* gorau (oed cyntadd) gan *Ceri Ann Jones* a *Tlws Llefary* gorau (oed cynrtadd) gan *Sioned Mai Jones*.

Cynrychiolwyd Llanrug yn dda hefyd. Cipiwyd *Cadair Lowri* gan *Ffion Wyn Roberts*, Llanrug a'r *Tlws Offerynnol* gan *Declan Jones*, Llanrug. Yn dilyn cystadleuaeth o safon uchel enillwyd *Cadair yr Eisteddfod* gan *Iwan Rhys Llanrug* a *Thlws yr Ifanc* gan *Debbie Hughes*, Llanrug.

Doilchodd y Cadeirydd, Rolant Wynne, i'r canlynol:

Y Beirniaid: Cerdd — Andrew Angel; Llefary — Carys Armstrong; Llenyddiaeth — Meinir Pierce Jones; Dawns — Anwen Edwards; Celf — Frank Green; Coganio a Gwnio — Bethan Owen; Ffotograffiaeth — Islwyn Jones; Cyfeilydd — Megan Roberts.

Mrs Nona Breeze a Gorsedd Beirdd Ysgol Uwchradd Brynrefail; Mrs Heulwen Evans a merched y Ddawns Flodau; Mrs Beryl Thomas am drefnu'r blodau; Mr Berwyn Hughes am wneud y Gadair; Mr Eifion Jones, Ysgol Uwchradd Brynrefail ac i bawb arall a gefnogodd yr eisteddfod ym mhob ffordd.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy



**STRYD FAWR
LLANBERIS**

(01286) 872777
annette@peris.co.uk

- * Gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar
- * Gwasanaeth dwyieithog
- * Gwyliau wedi eu teilwra i ateb anghenion yr unigolyn, teuluoedd neu grwpiau
- * Trefniadau hedfan yn unig
- * Penwythnosau yn theatrau Llundain
- * V pecyn cyflawn, h.y bws-mini o ddrws y tŷ, trefniadau hedfan, gwesty neu apartment, llogi car, ac yswriant
- * Arbenigedd mewn trefnu teithiau tramor i gorau ac i ysgolion
- * Pargenion munud olaf
- * Teithiau tramor gyda chantorion o Gymru

Am fanylion pellach, ffoniwch Annette neu Bethan

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati



BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491



Ar Ben Arall y Lein

Dyna ni, pen tymor arall. Maent i'w gweld yn mynd heibio'n gyflymach pob blwyddyn; arwydd o be ydi hynny deudwch? Wel, mae un peth yn sicr mae fy ngwallt wedi gwynnu ers blyneddoddd, ond mi ddechreuodd troi i liw pan oeddwn i'n un ar hugain, rhywbeth teuluol meddan nhw.

Digon o rwdlian, beth am y 'sgota meddech chi. Wel, i ddechrau arni daeth y clwy traed a'r genau a amlygodd ei hun bron ar y diwrnod roedd y tymor yn agor, felly fe aeth yn ddiwedd Mai cyn i'r awdurdodau wneud datganiad fod posib agor a gadael mynediad i'r glannau. Mae'n wir dweud ein bod wedi bod yn ffodus gan fod darnau o'r afonydd fel Crawia a Phont Rug wedi agor yn gynharach am mai'r clwb yw perchnogion y tir. Ond rhan fychan iawn o beth sydd ar gael i aelodau oedd hyn.

Sut mae hyn wedi effeithio ar y clwb meddech chi. I ddechrau arni mae oddeutu 50 o drigolion lleol heb ymaelodi eleni: dim 'sgota meddan nhw. Yn ogystal â hyn, gan fod mynediad wedi ei wahardd i Barc Padarn nid oedd yn bosib 'sgota Llyn Padarn chwaith, a hynny ar yr union adeg pan mae llawer o docynnau yn cael eu gwerthu i ymwelwyr. Hyd at rwan mae ein incwm i lawr oddeutu £8,000. Hwn yw'r arian rydym yn dibynnu arno i glirio'n morgais i brynu'r dyfroedd. Mae 'na ryw sôn efallai y bydd rhywfaint o gymorth ar gael, efallai gan y Cyngor neu'r Cynulliad. Buasai'n drasiedi i bethau fynd ar chwâl pan nad oes ond tair blynedd ar ôl i'w dalu.

Dyna'r newydd drwg heibio. Mae llawer o newyddion ardderchog hefyd.

Mae Cynllun Datblygu Pysgodfeydd Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus gyda £435,000 o arian ar gael i adnewyddu cynefinoedd ein hafonydd. Yn barod mae gwaith bron ar ddechrau yn Nant Peris

a Llanrug ar ddalgylch y Seiont, a hefyd yn Nrws y Coed a Nantlle ar ddalgylch y Llyfni. Bydd gwaith ar y Gwyrfa'i yn dechrau yn ystod 2002. Diolch yn arbennig i Gyngor Gwynedd am arwain y cynllun partneriaid eraill sef Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad, Parc Eryri drwy gynllun CAE, a hefyd Cymdeithasau Pysgota Gwynedd.

Hefyd gwelwyd y ffordd newydd, man parcio a'r angorfa cychod ar Cwellyn a agorwyd ar 24 Medi gan Dafydd Wigley AC. Roedd bron £18,000 wedi ei dderbyn i brynu'r tir a'r hawliau yn ogystal â gwneud y gwaith. Diolch i'r Fenter Goedwigaeth, Cyngor Chwaraeon Cymru (Sportlot) Parc Eryri (Cynllun CAE), Asiantaeth yr Amgylchedd ac wrth gwrs y Gymdeithas leol am eu cefnogaeth.

Beth am yr helfa. Wel, araf iawn oedd pethau ar y Seiont tan ganol Medi pan ddaeth rhediadau da o eog i'r afon ar y dŵr uchel. Dyma rai o'r hogiau medrus a gafodd eu gwobrwyo am eu hymdrechion gyda'r enwair: Clifford Thomas, Felinheli - dau eog o Glanrafon am 7 pwys yr un, cafodd frithyll brown arbennig hefyd o 3.5 pwys o Lyn Tywod. Victor Jones, Penisarwaun - un 6 pwys o Stablau. Carl Hasson, Caernarfon, gynt o Frynrefail - 3 ar Caeau 'Rafon a Llyn Du am 6, 8 a 12 pwys. Gareth Bryfdir Jones, Bontnewydd, Bethel gynt, - dau, un o'r rhain y 'sgodyn trymaf o ddyfroedd y clwb am 2001 sef 15.5 pwys a Nazareth. R. C. Jones, Caernarfon - dau, un o'r Seiont - Llyn Du am 14.5 pwys ac un o'r Llyfni - Llyn Tro am 12 pwys. James Carr, Llanrug a'i frawd Stephen o Bontnewydd, - dau yr un am oddeutu 8 a 7 pwys.

Mac camp gorau'r tymor yn mynd i Dewi Jones, Bethel am eog 8 pwys o Crawia. Roedd yn rhaid i rywun fynd i'r afon i

lanio'r 'sgodyn yma, ond rwy'n credu mai eisiau gweld a oedd a fuasai dannedd y 'sgodyn yn ffitio, mae'n amlwg nad oeddynt. Rhaid dal i chwilio Jôs, beth am ofyn i'r Tylwyth Teg os fedran nhw dy helpu.

Rhaid rhoi caead arni ne' mi fydda i'n mynd i fwy o ddŵr poeth, felly hwyl a fflag arni unwaith eto.

Bydd gwybodaeth am y Llyfni, Gwyrfa'i a'r llynoedd ar gael yn yr Eco y mis nesaf.



Dewi Jones, Bethel gyda'i eog 8 pwys a ddaliwyd yn Crawia.

CLWB ERYRI

Wrth groesawu'r aelodau ar ddechrau tymor newydd dywedodd y llywydd Dei Tomos nad oedd pethau cweit yr un fath yn y Clwb, gan gyfeirio at gadair wag Ysgrifennydd a Bardd y Clwb, y diweddar Iolo Huws Roberts. Yn ei deyrnged cyfeiriodd y llywydd at brysurdeb Iolo gyda gwahanol fudiadau, ei ddycnwch a'r manylder a oedd ynglŷn â'i waith. Wedi treulio ei yrfa ym myd addysg yn athro a Phrifathro, ac yn un o Arolygwyr ei mawrhydi, roedd arwain yn dod yn naturiol iddo. Roedd yn drefnydd heb ei ail, ac yn gwneud popeth gyda graen ac ar yr un pryd yn llawn hwyl ac asbri ac yn byrlymu o ffraethineb. Fyddai dim yn well gan Iolo na chwarae ar eiriau a gwneud camp o'r dweud. Roedd i'r gair ei le a'i bwysigrwydd ac i'r traethu sglein a graen. Cydymdeimlwyd gyda'r teulu, yn enwedig Nan, ei briod, a'i frawd Geraint sy'n aelod o'r Clwb. Safodd yr aelodau mewn cydymdeimlad â'r teulu ac i gofio am Iolo.

Yn dilyn, darllenwyd cerdd gan is-lywydd y Clwb, R. Gwynn Davies, a oedd yn deyrnged

addas ac arbennig iawn i'w gyfaill, Iolo.

Fel sy'n arferiad yng nghyfarfod cyntaf y tymor, cadeirydd y noson oedd yr is-lywydd ac mewn sylwadau cwta ac i bwrpas cyflwynodd y llywydd fel siaradawr y noson. Cyfeiriodd at gefndir y llywydd fel darlledwr, pwyllgorwr, dringwr a disco-wr a sawl 'wr' arall.

Testun y sgwrs gan Dei oedd 'Awyr Las i'w Harloesi' sef llinell o gerdd gan T. Llew Jones. Cafwyd hanes yr ymwelwyr cyntaf i ddod i Eryri i ddringo ac i grwydro'r mynyddoedd. Roedd nifer ohonynt wedi cofnodi eu teithiau yn fanwl mewn geiriau, mapiau a lluniau ac yr oedd Dei yn amlwg wedi ymchwilio yn fanwl i'r dogfennau hyn, a chyflwynodd ffrwyth ei ymchwil yn feistrolgar a difyr i'r aelodau. Gorffennodd ei sgwrs drwy ddyfynnu o gyfres o englynion gan y Prifardd Emrys Edwards. Wedi trafodaeth ddifyr o'r llawr diolchwyd i'r siaradwr gan Geraint Elis.

Cyhoeddodd y llywydd bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Wener, Tachwedd 2 pryd y cadeirir gan Eurwyn Griffith gyda Bert Parry yn traddodi'r araith.

Cywydd Coffa Clwb Eryri i Iolo Huws-Roberts

Darfu hwyl cyn darfu haf
A daeth gwae cyn daeth gaeaf;
Awst oer mor anystyriol
Yn ddi-les gweulon ddi-lol,
A grym di-hid ei gryman
Yn y glwys ir cgin glân;
Mis y lladd, fu mis y lli
Nwydwyllt gywain cyn Medi;
Dyfod ar hast a difa
Vn ei drachwant dyfiant da;
Y diawl yn mynd a Iolo
A ni'n wir ei angen o;
Ein hynaws Ysgrifennydd;
Rhyw fan di-angor a fydd
Y Clwb, heb ddisgyblwr clên
A'r hwyl dynera'i'r halen;
Gŵr medrus dawnus a doeth
Hwn rwystrai gecru annoeth;
Heb smaldod ei gofnodion

Lle chwith y gyfeillach hon;
N'ymroi i waith tros Gymru;
Addysgwyr, gŵr a garodd
Roi o'i allu inni'n rhodd
Ffiraen, gywraen wedi'i gwau
Swyn hudol ei sonadau;

Dawnus hoffus a doniol
Rhy hawdd cael seiat ar ôl;
A gwreiddioldeb ffraethinebion
Yn llwyth o hwyl i'r criw llon;
Er y gwg wrth i'r bar gau
Yn ŵr oedd ar ei orau.

'Nghyfaill, ni allaf anghofio - y ddysg

A'r ddawn fu'n disgleirio
Na'r frwd wasanaeth i'r fro;
Gwir gymrawd a gŵr Gymro.

R. Gwynn Davies

Fframia

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith cdau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

CAPEL COCH: Bydd cyfle i gyfrannu arian at Apel Affganistan Cymorth Cristnogol mewn Dydd o Roddion yn Festri Capel Coch ddydd Mercher, Tachwedd 7fed. Bydd cyfle i unrhyw un ddod ag arian i'r festri rhwng 10.30 o'r gloch a 12.00 hanner dydd, ac yna rhwng 6.30 o'r gloch ac 8 o'r gloch gyda'r nos. Mae'r angen i helpu'r bobl sy'n dioddef yn fawr, ac mae Cymorth Cristnogol ac elusennau eraill yn ceisio darparu bwyd a chysgod i'r bobl sydd wedi ffoi o'u cartrefi. Os medrwch gyfrannu byddwn yn falch o'ch gweld.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd yr Wyl Ddiolchgarwch dros ddau Sul eleni. Roedd Oedfa Ddiolchgarwch gyda rhai o aelodau'r eglwys a'r ieuencid yn cymryd rhan ynddi fore Sul, Hydref 21. Pregethwyd yn oedfa'r hwyr gan Miss Eleri Jones, Bangor. Cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch plant yr Ysgol Sul fore Sul, Hydref 28. Cafwyd paned a sgwrs ar derfyn yr oedfa. Diolch i bawb a gymerodd rhan yn yr oedfaon, a diolch i bawb a weithiodd yn galed i addurno'r capel a'r festri ar gyfer yr Wyl. Aed â'r ffrwythau a ddygwyd i oedfa'r plant i aelodau hyn yr eglwys.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cafwyd dau gyfarfod o'r Gymdeithas hyd yma y tymor hwn. Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Medi, a'r Parchg Gareth Maelor Jones oedd yng nghyfarfod mis Hydref. Mae croeso cynnes i aelodau newydd i'r cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal yn Siop Cae Coch nos Fawrth, Tachwedd 6 pan geir sgwrs ac arddangosfa o Addurniadau Nadolig gan Mrs Pat Jones.

CYMDEITHAS YR EGLWYS: Cafwyd cyfarfod y mis yma yn Angorfa gyda Mrs A P Jones yn y gadair. Dechreuwyd trwy weddi gan Mr Ralph Jones. Cyflwynodd Ann y gŵr gwadd, sef Mr Gwynn Davies, Sylfaenydd Antur Waunfawr, yn dweud ei hanes yn dechrau yr Antur. Mae wedi gweithio yn ddiflino ers y dechrau yn 1983 i'w gael ei lawn dwf er budd oedolion dan anfantais sy'n gweithio yno. Sgwrs hynod o ddiddorol. Diolchwyd i Mr Davies a hefyd i Mrs Moreen Lannon a Mrs Dilys Roberts am y baned a'r raffl gan Mr Gwynfor Williams. Yr enillydd oedd Mrs Eirlys Owen. Dymuniadau gorau i Mrs K Williams oedd yn yr ysbyty.

LLEISIAU LLIWEDD: Wrth i'r Côr aildechrau ar ôl seibiant bach dros wyliau'r haf oychwynodd aelodau newydd a chroesawyd hwy gan Mr Gareth Jones. Ddydd Sul, Medi 2il, buom yn canu mewn gymantfa yng nghapel Malltraeth, Môn. Ar y penwythnos Medi 21-24, bu llawer o'n haelodau ynghyd â ffrindiau yn Torquay. Cafwyd amser bendigedig, a diolchwn i Mr Gwilym Rees Parry am drafu'r daith unwaith eto. Bu llawer o gwerthin, hwyl a sbri dros y tri diwrnod. Buom yn canu hefyd

mewn cyngerdd yng nghapel Tabernacl, Cwm-y-glo ym mis Hydref.

UNDEB Y MAMAU: Yn y Rheithordy y cynhaliwyd ein cyfarfod misol bnawn dydd Mawrth Hydref 2. Cymerwyd y gwasanaeth gan ein Curad, y Parchedig Vittoria Hancock. Vittoria oedd ein gwestwraig am y prynhawn a chafwyd amser hynod o addysgiadol a difyr yn ei chwmni. Cynnwys ei sgwrs oedd lliwiau litwrgi a ddefnyddir yn yr Eglwys drwy'r flwyddyn, gyda phob lliw â'i arwyddocad a'i ystyr gwahanol. Roedd yr eglurhad a gafwyd yn arbennig o ddiddorol. Talwyd sylw i ychydig o faterion busnes i ddilyn, a hefyd cyfeiriwyd at sawl aelod oedd, am amryw o resymau, yn methu bod yn bresenol gyda ni. Mrs Nan Owen oedd yn gyfrifol am y baned a chynigiwyd y diolch iddi hi a Vittoria gan Miss Glenys Parry a Mrs Bet Hughes yn eilio. Glenys oedd yr un lwcus yn ennill y raffl. Diweddwyd drwy adrodd y gras.

YSGOL DOLBADARN

Diolch yn fawr iawn i'r rhieni a staff yr ysgol a fu'n gweithio'n galed i gynnal y caffl yn y carnifal. Codwyd £500 sy'n mynd i gael ei ddefnyddio i brynu offer chwarae newydd i'r plant.

Gwasanaeth arbennig.

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig fore dydd Gwener 14eg o Fedi i gofio am y dioddefaint a'r galar yn sgil yr erchyllterau yn America yn gynharach yr wythnos honno. Yn ystod y gwasanaeth hefyd fe gyflwynwyd blodau i Mrs Iona Jones ar ei diwrnod olaf yn y gegin. Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am roi deg ar hugain mlynedd o wasanaeth arbennig i'r ysgol. Dymunwn y gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

Croeso. Croeso cynnes i Miss Angharad ap Robert sydd wedi ymuno â staff yr ysgol fel athrawes Blwyddyn 5. Mae Miss Robert wedi setlo'n dda. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith. Croeso hefyd i'r plant meithrin newydd sydd wedi setlo'n ardderchog dan ofal Mrs Brookes ac Anti Gwenda.

PLAS PENGWAITH. Hoffwn ddiolch yn fawr eto eleni i Mrs Beryl Jones am roi o'i hamser i werthu ein pethau Nadolig wrth y drws. Dymuna pawb yn y Cartref Ionmgyfarch Manon a Nigel ar enediggaeth merch fach, a chwaer i Rebecca. Hefyd mae pawb yn y Cartref yn dymuno gwellahd buan i Shirley sydd adref ar hyn o bryd. Croeso nôl i Mrs M Bannister o'r ysbyty. Llongyfarchiadau i Karen ar ei phenodiad i swydd newydd yn y Cartref. Pen-blwydd hapus i'r rhai a fu'n dathlu eu pen-blwydd y mis yma, Mrs B Jones a Mrs D Evans.

Debyniwyd hyfforddiant tân yn y Cartref brynhawn Gwener 12fed. Cafwyd bore difyr hefyd ar Hydref 12fed gyda set ddillad. Mae ein Raffl Nadolig allan ac i'w gael yn y cartref new gan y staff gyda

gwobrau da eto eleni. Diolch yn fawr i bawb ohonoch am eich cefnogaeth. Bydd y raffl yn cael ei dynnu ar Ragfyr 8fed yn ein Ffair Nadolig. A wnaiff pawb sy'n cefnogi'r Bingo ar brynhawh Mercher ddal sylw bod y lleoliad wedi ei newid o'r llofa fawr i uned arall, a diolch am eich cefnogaeth. Croeso nôl atom i Anne Williams 'egin' ar ôl cyfnod byr i ffwrdd o'i gwaith. Rydym eto eleni yn rhoi rhodd wrth y gogolofn ar Sul y Cofio, Tachwedd 11eg.

LLONGYFARCHIADAU i Caryl, Carling, Ffordd Tŷ Du, ar ennill graddau uchel iawn yn ei harholiadau TGAU. Mae Caryl wedi dychwelyd i Ysgol Brynrefail i astudio Hanes, Cymraeg, Cemeg a Bioleg ar gyfer Lefel 'A'. Da iawn chdi, a phob lwc yn y dyfodol, gan Mam a Dad ac Iwan.

DIOLCH: Dymuna Sharon (o Becws Eryri) ac Adrian ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur hapus genedigaeth eu merch fach, Lois Haf. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Ffion a Keith ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a holl gymdogion y fro am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau gorau ar achlysur genedigaeth eu merch Beca Medi ar y 5ed o Fedi.

Hefyd, dymuna Ifor a Margaret (Siop Formag) ddiolch i'w teulu a ffrindiau'r fro am y cardiau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu wyres, Beca Medi.

DIOLCH: Dymuna Mrs Kathleen Williams, 6 Glanrafon, ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd oddi wrth ei theulu, cymdogion a ffrindiau tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac ar ôl dod adref. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH: Dymuna Ernest a Nan, 8 Rhos Efrog, ddiolch yn fawr iawn

i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Gwyneth Roberts, Merddyn Coch, ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd gan deulu, ffrindiau a chymdogion tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

BRYN PARRY

Roedd yn chwith iawn gan ei gyfeillion yn Llanberis a'r fro glywed am farwolaeth Bryn Parry yn ddiweddar. Diolch i'w ferch, Rhian Cadwaladr, am y geiriau hyn i gofio am ei thad.

Beicio a cherddad, darllen a siarad, Guinness a meild, malt whiskey a siarad.

Cychod a ceir, gyrru a trwsio. Marchnadoedd, car boot sales, aros a sgwrsio.

Bargeinio a haglo, Carafanio a theithio I Ellesmere, Iona, Lake District a'r Alban.

Bwydo yr elyrch ar lannau Llyn Padarn.

Talwrn y Beirdd, jazz, canu gwlad ac UFO

A paned o de yn ei gwpan spesial o. Llenwi fforms a phlania, morgeisi a grantia

A pheidio a gorffwys nes cael canlyniada.

Tynnu llunia efo camera Landscapes a fframia. Deud straeon a helpu. Gwylltio a phregethu.

Y teulu a'i wyrion a'r ci A bod yno bob amser i mi.

Merched Y Wawr



Bydd Pwyllgor at yr Anabl, Merched y Wawr, Arfon yn codi arian yn flynyddol at achosion da. Eleni, casglu arian at Uned Gofal y Galon, Ysbyty Gwynedd oedd y nod. Yn y llun gwelir Mena Williams, Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno sicc am bron i £2,000 o bunnocdd i Dr. Talwar, Ymgynghorydd Uned y Galon.

Llun: Gwyn Roberts

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod mis Medi o'r gangen a gynhaliwyd ar y 24ain yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo croesawodd y llywydd, Pat Jones, Anita Long, Tan yr Onnen i arddangos dulliau o lapio parseli o bob math gyda deunyddiau amrywiol. Talwyd gair o ddiolch gan Jennie Hughes. Estynnwyd dymuniadau da i Mai Davies ar ei hymddeoliad fel cogyddes yn Ysgol Gynradd Llanrug ynghyd â llongyfarchiadau iddi hi ac Ifanwy Jones ar ddod yn neiniau. Paratowyd y te gan Gwenda Roberts a Mai Davies a diolchwyd iddynt gan Elinor Williams. Valmai Owen enillodd wobwr y mis, rhoddedig gan Alice Williams.

Nos Lun, Hydref 15 y wraig wadd oedd Medwen Williams o Rostryfan a oedd yn arddangos gwaith cwiltio ar orchudd clustogau gyda chyfle i'r aelodau ymuno yn y grefft. Llongyfarchwyd y llywydd, Pat Jones, ar ddod yn nain. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Ifanwy Jones gan Jennie Hughes, ac Elinor Williams a Pat Jones baratodd y lluniaeth. Bydd y cyfarfod nesaf, sef y Cyfarfod Blynnyddol, nos Lun, Tachwedd 19.

GENEDIGAETH. Croeso mawr i Sara Dafydd, merch fach a anwyd i Ruth a Gareth Dafydd, Creigle a chwaer dderbyniol iawn i Morus a Gruffydd.

PEN-BLWYDD. Ar Hydref 13 dathlodd Miss Blodwen Owen, 2 Tai Orwig ei phen-blwydd yn 95 oed. Llongyfarchiadau arbennig a chofion atoch.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor o Gymdeithas y Capel yn y Festri nos Iau, Hydref 11. Yn absenoldeb anorod y Cadeirydd, Dafydd G. Ellis, Gweledfa, cymerwyd y gadair gan Gwyn Hefin Jones, Rhandir. Roedd y defosiwn dan ofal Ellen George, Sŵn yr Engan a thywysodd ein meddyliau i'r argyfwng presennol sy'n bodoli yn Affganistan.

Cyflwynodd y Cadeirydd y siaradwr gwadd, sef Duncan Brown, Waunfawr a thrwy gyfrwng sleidiau cawsom sgwrs gynhwysfawr am ein hamgylchfyd o'r dyddiau cynnar i'r presennol. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo

gan Verna Jones, Meillionen. Paratowyd y baned gan Mair Davies ac Ifanwy Jones.

Ar derfyn y cyfarfod diolchwyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud tymor 2001 yn un llwyddiannus ac yn arbennig i'r ysgrifenyddes Mair Davies am ei gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn dilyn etholwyd swyddogion ar gyfer tymor 2002: Llywydd, Jennie Hughes, Bryn Parc; Ysgrifenyddion: Eleanor Jones, Na Nog a Dwynwen Williams, Glasfryn; Trysorydd: Dafydd G. Ellis, Gweledfa.

YR WYL DDIOLCHGARWCH. Cynhaliwyd oedfa o ddiolch brynawn Sul, Hydref 21 dan lywyddiaeth Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth. Daeth cynulliad cryno ynghyd a chroesawyd nifer o ymwelwyr a oedd wedi ymuno yn y gwasanaeth. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Rhandir. Yn dilyn cafwyd cyfraniad plant yr Ysgol Sul, Caryl ac Awen Jones a Rhian ac Anna George. Cymerwyd rhan ymhellach gan Jennie Roberts, Ffrwd Madog; Bertie Roberts, Llwyncoed Bach; Emyr Williams, Clwybont a Jennie Hughes, Bryn Parc.

APÊL AFFGANISTAN. Yn dilyn neges oddi wrth Dr Brynley Roberts, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, Elgwyns Bresbyteraidd Cymru neilltuwyd Sul Hydref 28 yn ddydd o eiriolaeth dros bobl Affganistan ac yn ddydd i gynnal casgliad arbennig i gefnogi apêl Cymorth Cristnogol dros Affganistan. Os na chawsoch gyfle i gyfrannu yn ystod yr oedfa ac yn dymuno gwneud hynny, bydd yn bosibl cyflwyno'ch rhodd i drysorydd yr Eglwys, L.P. Roberts Williams, Godre'r Coed erbyn Tachwedd 8 os gwelwch yn dda.

OEDFAON MIS TACHWEDD. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod Suliau'r mis - yr oedfaon i gyd am 5.30 yr hwyr.

- 4: Mr Glyn Owen, Llanwnda;
- 11 (Sul y Cofio) Parch Gwenda Richards, Caernarfon. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd;
- 18: Mr Huw Jones, Llanwnda;
- 25: Parch Eric Jones, Penrhos, Bangor.

Yr Hen Chwarelwr

Welaiet ti'r creithiau ar ddwylo fy nhad?
Un hen chwarelwr mor dlawd ei ystad!
Foen yn ei 'sgylfaint o'r llwch a'r diolch
A'i lygaid mor boenus, bron-bron â chau.

Cofio yn llencyn, wrth gerdded i'r bone,
Dringo'r hen glogwyn a'i osgo mor

Dwylo cyhyrog yn cydio'n y rhaff,
A thro am ei glun i wneud pethau'n saff.

Tyllu 'da'r injan a'r ehill a'i ddur,
Tario a chwythu, a lawr ddi y mur;
Wedyn ddi'r cowjan a'r cyn i gael plêr,
Gofalu rhag rhediad yr hollt fynd yn fêr.

Slediad a'i lleifio, a'i hollti yn fras;
Hollti a'i naddu i wneud llechen las;
Oria'u o lafur, o hwyll ac o boen,
Creithiau mor amlwg i'w gweld ar ei groen.

Hanner can mlynedd o lafur i'r 'Lord'
Er mwyn cael bara i'w roi ar y ford;
Wedi heneiddio, mae'n unig a blin,
Gwybod ei dynged - dwy law ar ei lin.

John V. Morris
Rhianfa

Beth am anfon Stori
nou Lythyr i'r ECO

RYGARUG

Dydd Sadwrn Medi'r 15ed cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Cyhoeddus cyntaf RYGARUG, yn y Sefydliad Goffa Llanrug. Cafwyd annerchiad gan y Cadeirydd, Siân Wheway ac fe roedd cyfle i'r rhai oedd yn bresennol gynnig sylwadau a holi ynglŷn â'r prosiect i'r dyfodol.

Sefydlwyd RYGARUG ddechrau 2001 fel cynllun Celfyddydau Perfformio newydd sbon, i blant a phobl ifanc Bro Eco'r Wyddfa.

Rhwng Mis Mawrth a Mis Gorffennaf, llwyddwyd i gynnal 30 sesiwn mewn meysydd megis Cerdd, Drama, Dawns, Colur, Aml-gyfrwng a Sgriptio yn ogystal ag un Gweithdy agored cyhoeddus, lle y cafodd rhieni a chyfeillion RYGARUG gyfle i weld peth o waith yr aelodau.

Wedi rhoi rhywfaint o gefndir sefydlu'r prosiect a'r amcanion, diolchodd y Cadeirydd i'r tri chefnogwr, sef Dafydd Wigley AC, Eurig Wyn ASE a Bryn Terfel am eu cefnogaeth barod. Diolchwyd yn gynnes iawn hefyd i bob un o saith ysgol gynradd yr ardal sef, Ysgolion Dolbadarn, Gwaun Gynfi, Cwm y Glo Llanrug, Penisarwaun, Waunfawr a Bethel, ac Ysgol Uwchradd Brynrefail ac i'w Cyrff Llywodraethol am eu cefnogaeth lwyr wrth weinyddu'r prosiect.

Diolchodd y Cadeirydd am gefnogaeth ariannol a dderbyniwyd gan Adran Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru, (Celfyddyd i Bawb), Cyngorau Cymunedol lleol, a Chronfa'r Degwm, ynghyd â rhoddion hael gan unigolion a chwmnïau eraill hefyd.

Atgoffwyd y Cyfarfod bod cost ymaelodi a'r gost sesiwn o £1 yn fwiadol isel, er mwyn rhoi cyfle i bawb yn yr ardal i fanteisio ar y celfyddydau perfformio.

Pwysleisiwyd ei fod yn bolisi gan RYGARUG i sicrhau incwm o ffynonellau eraill ar wahân i grantiau, ac o'r herwydd sefydlwyd Is-bwyllgor codi arian. Esboniodd y Cadeirydd fod nifer sylweddol o enwau o wirfoddolwyr gan RYGARUG cisocs, a diolchwyd iddyn nhw i

gyd am eu help a'u cefnogaeth barod iawn dros y misoedd diwethaf. Ond serch hynny, gwnaed apêl am fwy o enwau o wirfoddolwyr, o holl bentrefi Eco'r Wyddfa.

'Mae gan bawb rywbeth i'w gynnig' meddai Siân Wheway, 'o ddosbarthu gwybodaeth yn yr ysgolion i redeg Caffi RYGARUG am awr. Mae 'na ddigon o bethau i'w gwneud.'

Diolchodd hefyd i'r holl rieni oedd wedi cefnogi'r fenter dros y misoedd diwethaf ac apeliwyd arnyh nhw i ddal i annog eu plant i ddod draw i'r sesiynau newydd, sydd eisoes wedi ers Fawrth Hydref 2il yn Ysgol Gynradd Llanrug/Sefydliad Goffa Llanrug a nos Fercher Hydref 3ydd yn Y Sefydliad Goffa - yr Institute Llanrug.

Am fwy o wybodaeth am weithgareddau RYGARUG, ffurflenni ymaelodi ac amserlen, neu unrhyw gwestiwn arall, cysylltwch â'r Trefnydd sef Audra Roberts ar 01289 675766.

* * *

Cychwynnodd Tymor yr Hydref yn llwyddiannus iawn gydag yn agos i ddau gant o bobl ifanc y fro yn cofrestru am sesiynau aml-gyfrwng, sgriptio, cerdd, dawns, drama a cholur. Nod Rygarug yw rhoi cyfle i ieuenctid lleol brofi'r celfyddydau perfformio a thechnoleg aml-gyfrwng. Yn y misoedd i ddod bwriedir cynnal sioeau ac arddangosfeydd o waith yr aelodau ynghyd â mynychu sioeau proffesiynol. Bydd nifer o weithgareddau codi arian yn digwydd yn ystod y flwyddyn a'r cyntaf o'r rhain fydd Ffair Gaeaf i'w chynnal yn y Ganolfan Goffa, Llanrug ar fore Sadwrn, Tachwedd 17 am 10.30am. Bydd cyfle i gael panad o de neu goffi ynghyd â nifer o stondinau. Gofynnwn yn garedig i rieni holl aelodau Rygarug am gyfraniadau tuag at y raffl a stondinau gacennau a thombola. Gellir gadael eich cyfraniadau yn y Ganolfan Goffa ar nosweithiau Mawrth a Mercher.

Mae croeso i bawb ddod draw am banad a sgwrs ac i gefnogi'r fenter gyffrous hon.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy'r

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

www.s4c.co.uk



Cyfraith Duw Neu Gyfraith Dyn?

Y STAFELL DDIRGEL

Cyfres ddrama wedi'i seilio ar nofel Marion Eames

8.30PM

BOB NOS SUL

YN CYCHWYN 18 TACHWEDD

TRANSL000/000

DRAMA NEWYDD

S4C

Yn yr Ardd

(parhad o dudalen 6)

ddarnau bach a'u berwi yn y finegr a'r siwgr. Yna ychwanegu popeth arall. Ond beth am y bitrwt, gofynnwch? Eu berwi ar wahân a'u hychwanegu at y cynnwys.

Ond beth sydd well na theisen afalau a mwyar duon, sydd i'w cael yn rhad ac am ddim? Y mae'n rhaid inni gofio am yr Anweledig, sydd yn gyfrifol am hyn i gyd, a dyma'r mis inni fynd i ddiolch am bopeth.

CEUNANT

PEN-BLWYDD. Dymuna Tomos Gwilym o Bryn Berllan ddiolch yn fawr iawn i'w holl ffrindiau am yr anrhegion/arian a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 5 oed.

CROESO cynnes iawn i Dafydd a Carys Hammer a'r plant i Bron Hafod, Ceunant. Dymunwn bob hapusrwydd i chi yn eich cartref newydd.

Cefnogwch
ein Hysbysebwy

Cricedwr Ifanc o Fri

Gwisg Genhinen yn dy Gap...

Un o fanteision - a phleserau - bod yn Olygydd Chwaraeon dros gyfnod o amser yw fod rhywun yn gallu croniclo datblygiad, ac yn wir cychwyn gyrfa nifer o dalentau'r ardal. Un o'r rhain yw Tom Evison, y cricedwr amryddawn 18 oed o Gae Hopcyn, Caeathro.

Dechreuodd y tymor diwethaf yn aelod gwerthfawr o dim llwyddiannus Dinas Bangor. Yna, trosglwyddwyd Tom i'r de ble bu'n chwarae'n rheolaidd i ail dim Morgannwg a chlwb Pontypridd ar benwythnosau. Mae'n rhaid iddo blesio gan fod Morgannwg yn awyddus i Tom ymuno â nhw yr

haf nesaf. Y mae'r cynnig yn rhoi lle i Tom yn eu Academi Griced i rai rhwng 18-21. Gan mai ond lle i chwech sydd yn yr academi, mae'n llyn mesur da o allu a datblygiad Tom.

Ond mae cynnig arall o'i flaen hefyd. Mae wedi ei dderbyn i Ysgol Griced yr MCC yn Lords. Dyma lwyfan pwysig i rai sy'n mynd ymlaen i chwarae'r gêm yn broffesiynol. Eto, din ond nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael. Mae dewis anodd yn wynebu Tom felly, ond pa un bynnag fydd y dewis terfynol, mae'n ymddangos mai gwisgo cenhinen Morgannwg fydd Tom, doed a ddelo.

TÎM TROSEDDU IEUENCTID GWYNEDD MÔN

Swyddfa Menai, Glan y Môr, Felinheli, Bangor LL56 4RQ



Oes Ganddoch Chi Ddiddordeb mewn Lles Pobl Ifanc a Dyfodol eich Cymuned?


Mae Tîm Troseddau Ieuenctid Gwynedd a Môn yn chwilio am wirfoddolwyr i fod yn aelodau o banel arbennig. Pwrpas y panel fydd delio â throseddau ifanc drwy eu cael i 'wneud iawn' am eu trosedd a thalu'n ôl i'r gymdeithas neu i'r dioddefwyr.

Oes ganddoch chi'r amynedd a'r dealltwriaeth sydd ei angen i fod yn aelod o'r panel - i ddeall amgylchiadau a theimladau gwahanol bobl a gwneud penderfyniad teg?

Os felly, cysylltwch â'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn y Felinheli ar (01248) 679183.

Bydd natur y gwaith yn un gwirfoddol ond fe delir costau teithio. Mae disgwyl i'r aelodau fod yn barod i gyfarfod ar gyda'r nosau ac efallai ar ambell benwythnos. Bydd hyfforddiant hefyd ar gael.

CROESAIR TACHWEDD



Cyfansoddwyr o'r 5 i lawr oedd 39 ar draws, 2, 7, 10, 23, 30 a 34 i lawr.

Ar draws:

1. Cartrefi'r cŵn (6)
4. Llestr i oleuo'r ffordd i Florence? (4)
7. Y chwârren sy'n cynhyrchu wyau'r ferch (5)
11. Fe gysylltir cyfandir y gogledd â chyfandir y de gan yr un canol! (7)
12. Llanc neu ŵr bonheddig (7)
13. Allwedd i'r twll? (7)
14. Yr ynni a ddaw o geg nifer o bobl (4)
15. Mae'n werthfawr, ond gall fod cyn rhated â 5c (5)
18. Argymell Ann o Gonwy i'w gynnwys (5)
20. Adeiladau lle cedwir adar sy'n ffordd o'u cartref (10)
25. Un â gallu cyfreithiol ganddo (10)
27. Mynaches (5)
31. Awdur (5)
33. Rhan o Brydain yn y dyfnderoedd (4)
38. Rhain sy'n rheoli llif yr hylif drwy'r peipau (7)
40. Lles i astudio (7)
41. Dillad uchaf a wisgir gan ferched neu raddedigion (5)
42. Mynd yn dywyll (4)
43. Meddyginiaeth (6)

I Lawr:

1. Ewin aderyn neu anifail (7)
3. Y Llawcnydd a ddaw o siarad anwylaf iaith y ddacar (6)
6. Cael rhywbeth wrth dalu (5)
8. Hen grwydriad yn symud yn gyflym? (8)
9. Taro i lawr (5)
10. Un sy'n gweithio â haearn (3)
17. Darn o farddoniaeth neu gân (3)
19. Heb deimlad yn edrych ar y lloer (3)
21. Chwyth-offer prcn gyda chorsen ddwbl (3)

22. Trydydd person unigol gwrywaidd y rhagenw personol!!! (3)
24. Tegan ar ddelw neu lun person (3)
26. Dyn dŵad (8)
28. Y swyddfeidd ple cedwir cofnodion (8)
29. O'r un lled (6)
32. Tuedd trwsyl a dwy lafariad yn ymuno o gwmpas (6)
35. Symud rhywstrau drwy lanbau? (6)
36. Gwyddor sy'n ymwneud â mater ac ynni (5)
37. Deuddeg (5)

Daeth 28 o atebion i Groesair mis Hydref i law, sef cynigion Dilys A. Pritchard-Jones, Margaret W. Roberts, Moreen Lennon, Dorothy B. Jones, Olwen Owen, I. Jones, Olwen Jones, G. Gill, E. E. Jones, Gwen Davies, Jean Hughes-Jones, Catherine A. Jones, Ceridwen Williams, Nansi Davies, M. P. Jones, Alice M. Griffith, Eluned Jones, J. Williams, N. Hughes, E. Eurwen Roberts, Nan Owen, Arfon Jones, Pat Owen, Mair Evans, Eirian Roberts, Ellen Pritchard, Rosemary Williams a Rhiannon Pritchard-Jones.

Mae'n parhau'n syndod i mi o fis i fis wrth sylweddoli o ble y daw'r cynigion. Ymhlith yr uchod mae un o Rhuthun, un o Gaerfyrddin, un o Brestatyn ac un arall o'r Wirral. Daw nifer hefyd o ardaloedd Llŷn ac Eifionydd ac, wrth gwrs, o fro'r Eco.


Enillydd y mis ydi Nan Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis - £5 a llongyfarchiadau i chwi.

Ar ôl cwblhau croesair Tachwedd, gyrrwch eich atebion at:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Tachwedd 19.

DYDDIADUR TACHWEDD

1. Llun: **DEINIOLEN.** Cyfarfod y Chwirydd yn Ebeneser am 2 o'r gloch.
WAUNFAWR. Sefydliad y Merched - cyfarfod blyneddol.
- 2 Gwe: **LLANBERIS.** Clwb Eryri.
3. Sad: **PENISARWAUN.** Yr Eisteddfod Bentref.
5. Llun: **DEINIOLEN.** Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Llandinorwig.
12. Llun: **DEINIOLEN.** Y Cyngor Eglwys.
13. Maw: **LLANRUG.** Cwmni'r Arad Goch yn perfformio 'Taflad Carreg', yn Ysgol Brynrefail.
LLANRUG. Merched y Wawr yng nghwmni Rhiannon Roberts.
15. Iau: **LLANBERIS.** Cyngor Cymuned yn Angorfa.
17. Sad: **LLANRUG.** Ffair Gaeaf Rygarug am 1.30 y pŵn yn y Ganolfan Goffa.
19. Llun: **WAUNFAWR.** Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan y Parch Trefor Jones, Caernarfon.
DEINIOLEN. Merched y Wawr. Sgwrs gan Emyr Llewelyn, Caernarfon.
20. Maw: **BETHEL.** Cyfarfod agored yn y Neuadd i drafod anghenion y pentref (am 7 o'r gloch).
23. Gwe: **PENISARWAUN.** Ffair Nadolig yn y Neuadd Gymned am 6.30.
LLANRUG. Noson Caws a Gwin am 6.30 o'r gloch er budd Eglwys Sant Mihangel.
26. Llun: **DEINIOLEN.** Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan y Parch Harri Parri, Caernarfon.
29. Iau: **CWM-Y-GLO.** Ffair Nadolig Menter Fachwen yng Nghaban y Cwm o 11 y bore hyd 7.30 yr hwyr.
CAEATHRO. Plygu'r Eco yn y Clwb mawr.
30. Gwe: **WAUNFAWR.** Miri Siôn Corn yn yr Antur.
PENISARWAUN. Disgo i'r Plant yn neuadd yr Eglwys am 6.30 o'r gloch.



Cefnogwch ein Hysbysebwy

RHODDION

- £10: Adrian Roberts, Bryn Golau, Waunfawr.
£5: Einir a Geraint, Gwêl Elidir, Cwm-y-glo; Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Rhandir, Brynrefail; Sian E. Hughes, 2 Bryn Gors, Cwm-y-glo; M. Rainbow, er cof am Neville Thomas, Llanrug; Ifan Dafydd, Bryn Moelyn, Llanrug.
£3: Aled a Llinos Jones, Fecell, Llanddeinilen.
£2: Elen a Gareth, Bwthyn Isaf, Deiniolen.

G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030



WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: 650218

CHWARAEON

Atgofion am y Brenin

Daeth ambell atgof yn ôl i mi o weld y brenin – John Charles – yn derbyn y CBE ym Mhalas Buckingham yn ddiweddar. Y tro cyntaf i mi ei weld oedd yn Nhŷ Newydd pan chwaraeodd John Charles i glwb criced Bangor. Y flwyddyn oedd 1956 a'r achlysur oedd gêm canmlwyddiant y clwb. Chwaraeodd Charles – a oedd yn Leeds ar y pryd – ynghyd â Norman Oldfield, chwaraewr rhyngwladol Lloegr yn erbyn tîm yn cynrychioli'r gogledd. Gorffennaf 1, 1956. Roedd torf fawr yn Nhŷ Newydd a chofiaf ddau beth – ei faint ac iddo sgorio 21 rhediad. Os gwn i ble mae'r llofnod a gefais – ynghyd â llawer o blant eraill – erbyn hyn.

Yr ail achlysur oedd ar y Cae Ras yn Wrecsam, a Bangor yn cyfarfod Caerdydd yn rownd derfynol Cwpan Cymru ganol y 60au. Tommy Banks, cefnwr

chwith Bangor, a chwaraeodd yn ffeinal Mathews yn 1953 – yn rhoi tacl wael iawn i ail eilun pêl-droed Cymru, sef Ivor Allchurch. Cofiaf eiriau Charles, yn syth o'm blaen, pan ddaeth at Allchurch. Y geiriau, 'Try me next time, Tommy!' Ie, efallai mai nid y brenin addfwyn oedd Charles, bob tro. A'r atgof olaf oedd ei weld ar bnawn gwlyb ar Ffordd Farrar yn cymryd cic rydd rhyw 40 llath o'r gôl, i gyfeiriad yr orsaf. Ei tharo yn lân a'r bêl yn crafu y trawsbren. Tipyn o hyd! Cofio hefyd am ei allu anhygoel i aros yn yr awyr cyn penio'r bêl fel taran. Gyda llaw, fel *centre half* roedd o'n chwarae yn y ddwy gêm a gofiaf.

Dyddiau da a thorfeidd o filoedd yng ngemau Cwpan Cymru. Ie, dyddiau da a chofion am un o wir sêr y gêm bêl-droed. Beth fuasai ei werth yn oes y prisiau mawr heddiw?

Ysbryd Cymunedol

Bu cryn ddychryn o weld y canlyniad: Llangefni/Glantraeth 16 v Deiniolen 1 yn ddiweddar. Roedd darogan gwae yn y gwynt. Gwantan oedd tîm Deiniolen y pnawn hwnnw, a'r Monwysion – oedd â record wael eu hunain – yn cynnwys naw chwaraewr o'r tîm cyntaf.


Ers hynny, mae Dei John wedi dangos cryn arweiniad ac wedi apelio at ysbryd cystadleuol tîm Deiniolen. Y mae cyfraniad y pentref i lwyddiant y clwb yma yn ei ddatblygiad wedi bod yn amhrisiadwy. Rwy'n siŵr y daw hyn eto, i gefnogi aelodau'r pwyllgor a'r tîm yn eu brwydr i wella'r sefyllfa bresennol. Y mae agwedd bositif yn rhan annatod o wneuthuriad Dei John, a bydd hyn yn gaffaeliad sicr.

Mac'r tîm ieuencid hefyd yn

magu hyder ac yn dangos yr ysbryd tîm angenrheidiol. Mae'n hanfodol bwysig fod y gymuned yn cynnal y tîm dros y cyfnod byr, nes bydd aelodau'r tîm ieuencid yn ennill eu lle yn y tîm hyn.

Roedd Alan Farmer a Frankie bach yn sôn wrthyf am dymor ennill y Cwpan Iau yn ddiweddar. Roeddent yn cofio pob gêm yn eglur – yn enwedig y gêm yng Ngwalchmai – a'r cymeriadau cryf fel Gwil Goli. Ie, tîm o gymeriadau, ysbryd ac elfen gystadleuol yw Deiniolen. Nid yw clwb yn colli'r fath elfennau. Y mae gormod o elfennau positif yn perthyn i'r clwb yma – gyda chefnogaeth y gymuned unwaith eto, daw diwrnod y 'double-deck' llawn yn ôl.

Capiau Criced



Eifion Jones, prifathro, Ysgol Brynrefail yn cyflwyno capiau criced Eryri i Iolo Morgan (-13); Gary Leadbetter (-12); Alled Hughes (-13) a Mark Pitts (-14).

Golf



Ar Medi 30 cefais y frainc o chwarae golff i dîm dan 18 oed Bechgyn Gogledd Cymru yn Llandudno. Roeddem yn chwarae yn erbyn tîm y genethod, ond pan gyrhaeddais roeddwn yn amau i pa dîm yr oeddwn i fod i chwarae, achos roedd yn rhaid i mi wisgo siwmpwr swyddogol – lliw PINC!

Roedd gofyn i ni chwarae dwy rownd yng nghanol gwynt a glaw difrifol. Profodd dreifio

yn anodd ac roedd y 'greens' yn araf gyda'r glaw trwm. Colli oedd hanes y bechgyn eleni ond fel mater o ddiddordeb, y tro diwethaf i'r genethod ennill, Ian Woosnam oedd capten y bechgyn.

Y fi oedd yr ieuengaf o'r tîm a gyda digon o rowndiau yng Nghaernarfon gobeithio y câf gyfle eto yn y dyfodol.

Ifan Dafydd Owen 9i
Llanrug

(parhad o'r dudalen flaen)

tonnen. Cylchu'r llyn, dilyn afon Tan yr allt a pharhau i ddringo i gopa'r Foel Goch, dringfa serth eithriadol. Disgyn wedyn i Fwlch Maesgwm a dilyn y llwybr ar i waered cyn troi eto a dringo'n ôl i Gwm Dwythwch dros y Cefn Drum. Hwn oedd y cymal ble'r aeth pethau o chwith i nifer o dimau a chymal ble manteisiodd eraill ar allu eu haelodau i ddarllen map a chwmpawd yn gywir ac yn gyflym. Ac yr oedd gwybodaeth leol o fudd mawr i redwyr Eryri, wrth gwrs!

Erbyn dechrau'r cymal olaf, roedd tîm Bingley bron i bum munud ar y blaen, a gydag Ian Holmes, Pencampwr Rhedeg Mynydd Prydain deirgwaith, yn eu cynrycholi, doedd dim gobaith gan neb arall i'w ddal. Ond roedd y ras am weddill y safleoedd yn poethi. Dringo Braich y Foel unwaith eto i gopa Moel Eilio, ond y tro hwn, troi i'r gogledd a dilyn llwybr llydan ar fynydd agored i lawr y Bryn Mawr tua Bwlch y Grocs ac yn ôl tua'r diwedd.

Bingley oedd yn fuddugol mewn amser o dair awr, tri munud ar hugain a phymtheg eiliad. Bedwar munud yn ddiweddarach daeth tîm Cumberland, a thim Pudsey a Bramley lai na hanner munud o'u hôl hwythau. Ac acth y prif wobrau i glybiau o Loegr.

Cipio'r aur.

Ond roedd cryn frwydro'n mynd ymlaen ar Foel Eilio. Roedd timau'r dynion hyn yn ymladd am y prif wobrau. Horwich a Kendal oedd ar y blaen yn cychwyn dringo, ond ddau funud tu cefn roedd Colin

Donnelly o dîm Eryri. A oedd hi'n bosib iddo ddal y ddau arall? Yn cyd-redeg ag ef roedd James McQueen o dîm cyntaf Eryri. Roedd hi'n frwydr o fewn y clwb ac o fewn dosbarth oedran! Profodd Colin fod ei allu i ddringo yn drech na neb arall o'r un oedran, ac aeth heibio rhedwyr Horwich a Kendal i gipio'r aur i Eryri, a'r nawfed safle i'w dîm, gyda James yn croesi'r llinell yr un pryd i sicrhau'r degfed safle.

Yn adran y merched, roedd y cystadlu yr un mor glos rhwng timau Keswick (gyda'r Gymraes, Angela Brand-Barker o Borthmadog gynt yn aelod o'r tîm) ac Ilkley. Keswick sicrhodd y fuddugoliaeth o bymtheg eiliad ar ôl bod allan ar y mynyddoedd am bedair awr ac ugain munud. Wyth munud o'u hôl roedd tîm merched Dark Peak yn dal eu gafael i'r fedal efydd gan orffen hanner munud yn unig ar y blaen i ferched Eryri.

Diwedd glo calonogol i'r Clwb lleol felly, a hynny yn dilyn tymor y bydd pawb eisiau ei anghofio oherwydd effeithiau'r Clwy Traed a'r Genau.

O Ysgol Brynrefail

Wedi holl drafferthion clwy'r traed a'r genau y llynedd, mae'r disgyblion yn gobeithio am flwyddyn gyfan o gampau cystadleuol eleni. Mae'r tîm pêl-droed hyn eisoes wedi chwarae tair gêm – dwy ohonynt yn gemau Cwpan Cymru.

Cafwyd canlyniadau ardderchog gartref yn erbyn yr hen 'elynyion' o Gaernarfon,

(parhad ar dudalen 13)